Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol Glyndŵr

Yr Adroddiad Technegol

Mawrth 2019

Cynnwys

Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd 1
Yr adolygiad yma 1
Yr adroddiad yma 1
Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Glyndŵr 2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad 3
2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr 7
3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu 14
4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd 17
5 Darpariaeth gydweithredol 23

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol Glyndŵr. Cafwyd yr adolygiad mewn dau gam, fel a ganlyn: yr Ymweliad Cyntaf gan y Tîm ar 11 Chwefror 2019 a'r Ymweliad Adolygu rhwng 11 a 14 Mawrth 2019. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o bedwar adolygwr:

- Yr Athro John Baldock
- Dr Christine Jones
- Yr Athro Andrew Rogers
- Matthew Kearns (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Cyn yr ymweliadau adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso), adroddiad newidiadau, a chyfres o wybodaeth ymlaen llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad yma

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi'u rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r Adroddiad Canlyniadau ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.[3]

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi'u bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i gyflwyno sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Canlyniadau: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Glyndwr

Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol Glyndŵr

Mae Prifysgol Glyndŵr yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol Glyndŵr yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr addysg uwch drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, sy'n cynnwys fframwaith strategol, strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol Glyndŵr yn wreiddiol fel Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru yn 1988, er ei bod wedi bodoli cyn hynny fel cyfres o golegau oedd yn cynnwys Ysgol Wyddoniaeth a Chelf Wrecsam gynt oedd yn dyddio'n ôl i 1887.

2 Cenhadaeth y Brifysgol yw "ysbrydoli a galluogi; gan drawsnewid pobl a lleoedd a gyrru llwyddiant economaidd, cymdeithasol a diwylliannol yn ei flaen". Yn 2018, cyhoeddwyd 'Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025' newydd gan Brifysgol Glyndŵr, ac mae pedwar parth i'r strategaeth:

- addysgu sy'n ysbrydoli
- ymchwil sy'n trawsnewid
- ymgysylltu sy'n galluogi
- strwythur sy'n cynnal.

3 Nod y 'Weledigaeth a Strategaeth hyd 2025' yw galluogi dysgu ysbrydoledig ac addysgu ardderchog drwy adolygu'r cwricwlwm yn barhaus, datblygu dysgu hyblyg a hygyrch, gwella prosesau cadw myfyrwyr a'u cyflawniad, a gweithio gyda myfyrwyr fel partneriaid.
Mae Gweledigaeth a Strategaeth hyd 2025 y Brifysgol wedi'i thanategu gan 14 o strategaethau ategol, sy'n cynnwys Strategaeth Cynorthwyo Dysgu a Chyflawniad Myfyrwyr (y cyfeirir ati fel 'Strategaeth Dysgu' o hyn ymlaen), Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogaeth, Strategaeth Cyflogadwyedd a Strategaeth Ymchwil.

Yn 2014, ymadawodd nifer o aelodau uwch allweddol o'r staff â'r Brifysgol ac, yn dilyn cyfnod o arweinyddiaeth interim, mae tîm gweithredol newydd wedi bod yn ei le ers 2016. Yn yr un modd, mae ymddeoliadau a'r penodiadau newydd a ddilynodd y rheiny wedi golygu bod gan y Brifysgol Fwrdd Llywodraethwyr gwahanol. O'r newidiadau hyn deilliodd y 'Weledigaeth a Strategaeth hyd 2025' newydd, ac yn tanategu'r rheiny mae nifer o strategaethau ategol.

5 Ers yr adolygiad diwethaf, mae'r Brifysgol wedi ailstrwythuro ei hysgolion academaidd, a'r newid diweddaraf oedd eu trefnu'n ddwy gyfadran yn 2018 - Cyfadran y Celfyddydau, Gwyddoniaeth a Thechnoleg, a Chyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd.
Mae strwythurau arweinyddiaeth y ddwy gyfadran yn union yr un fath, gyda Deon Gweithredol a gefnogir gan bedwar Deon Cyswllt sydd â chyfrifoldebau mewn perthynas â i) materion academaidd; ii) ymgysylltiad myfyrwyr; iii) mentergarwch, partneriaeth a chyflogadwyedd; ac iv) ymchwil.

6 Mae'r Is-Ganghellor a'i dîm gweithredol yn gyfrifol am reoli'r Brifysgol, gan adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Adroddir am y materion academaidd i gyfres o bwyllgorau sydd â'r oruchwyliaeth bennaf dros ansawdd a safonau, sy'n cyfarfod yn rhan o'r Bwrdd Academaidd. Ym mis Gorffennaf 2017, sefydlwyd Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau gan y Bwrdd Llywodraethwyr i werthuso gwaith y Bwrdd Academaidd ac i gynghori'r Bwrdd Llywodraethwyr llawn ar lofnodi datganiadau sicrwydd blynyddol yn ymwneud ag ansawdd a safonau sy'n cael eu cyflwyno i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Mae'r Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau wedi'i drafod ymhellach ym mharagraff 79.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwylir o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

7 Mae gan y Brifysgol oddeutu 2800 o fyfyrwyr israddedig, ac mae'r mwyafrif ohonynt yn astudio'n llawn amser, a 230 o fyfyrwyr ôl-raddedig, y mae oddeutu eu hanner yn astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, yn ogystal â miloedd o fyfyrwyr eraill sy'n astudio'n rhan amser. Mae cyfanswm y myfyrwyr wedi gostwng ers 2013-14, yn bennaf oherwydd gostyngiad yn y nifer o fyfyrwyr rhyngwladol.

8 Mae'r Brifysgol yn cofrestru 45% o'i myfyrwyr o'r rhanbarth lleol. Mae cyfran uchel o'r myfyrwyr yn dod o ardaloedd lle mae'r gyfranogaeth mewn addysg uwch yn tueddu bod yn is, ac mae cyfran uchel o'r myfyrwyr yn datgan bod ganddynt anabledd. Roedd mwy na 26% o'r myfyrwyr yn derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl yn 2016-17. Mae mwy na 70% o fyfyrwyr y Brifysgol wedi'u categoreiddio'n fyfyrwyr hŷn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ar y cyfan, mae 88.9% o'r myfyrwyr yn perthyn i un o'r tri chategori yma.

9 Mae'r Brifysgol yn olrhain cyfraddau cadwraeth yn agos (gwelwch baragraff 61) ac mae ganddi Weithgor Cadwraeth sy'n adrodd i'w Grŵp Mynediad a Chadwraeth. Mae'r camau gweithredu sy'n codi o'r Gweithgor yn cyfateb â'r cyfraddau cadwraeth myfyrwyr sydd wedi cynyddu o 84.2% yn 2015-16 i 85.6% yn 2017-18, ac â chynnydd cyson yng nghyfraddau cynnydd y myfyrwyr o 78.9% yn 2013-14 i 83.9% yn 2017-18. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae canran y myfyrwyr sydd wedi cael graddau da (1af/2:1) ar gyfer eu gradd gyntaf wedi cynyddu hefyd i 68.2% yn 2017-18.

1.3 Sylwadau ar y ffordd y mae'r darparwr yn cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol

10 Lansiwyd Strategaeth Ymgysylltu Dinesig ar gyfer 2018-21 gan y Brifysgol sy'n cynnwys camau gweithredu manwl a luniwyd i hybu dinasyddiaeth weithgar a gwirfoddoli, ymgysylltu â byrddau gwasanaethau cyhoeddus, cefnogi ysgolion a phobl ifanc, arloesi a chyfalaf cymdeithasol drwy Ganolfannau Arloesi, gan sicrhau bod y camau hyn yn cael effaith go iawn. Nod y Brifysgol yw ateb y galw am sgiliau yn y rhanbarth drwy weithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i fapio ei chyrsiau yn erbyn y Cynllun Rhanbarthol Sgiliau a Chyflogaeth. Mae hefyd yn ymgysylltu'n agos â datblygiadau yn ymwneud â Bargen Twf y Gogledd er mwyn canfod sut y gall gefnogi ei hamcanion.

11 Mae Strategaeth Ehangu Mynediad a Chyfranogaeth yn nodi ymrwymiad y Brifysgol i godi dyheadau darpar fyfyrwyr ac i'w cefnogi'n briodol i fynd i mewn i addysg uwch ac i lwyddo er mwyn ymdrin â bylchau yn y gyfranogaeth. Mae hyn yn hysbysu nid yn unig Gynllun Mynediad a Ffioedd blynyddol sy'n cael ei gyflwyno i CCAUC, ond hefyd y gwaith o gynllunio a datblygu portffolio addysgol a gwasanaethau cymorth myfyrwyr y Brifysgol. Mae'r camau gweithredu penodol yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau i sefydlu cytundebau cynnydd, hybu'r cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n gadael gofal a myfyrwyr sy'n ofalwyr, a darparu cyfleoedd i wneud cyrsiau byr sy'n magu hyder ac yn datblygu sgiliau darpar fyfyrwyr sy'n eu galluogi i fynd i mewn i addysg uwch.

12 Mae'r Brifysgol wedi gweithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr i wella iechyd meddwl y myfyrwyr ac i gefnogi'r rheiny sydd â phroblemau iechyd meddwl. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant mewn atal hunan-ladd i'r staff a'r myfyrwyr sydd wedi'i ariannu'n allanol, sy'n galluogi i'r rheiny sydd wedi cymryd rhan hyfforddi pobl eraill yn eu tro, a hyrwyddo calendr Iechyd a Lles. Mae gwaith fel yma wedi'i gyflenwi gan wasanaethau chymorth lles a chwnsela i fyfyrwyr sy'n cynnwys mentoriaid iechyd meddwl.

13 I ategu strategaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg, mae gan y Brifysgol Gynllun Datblygu Academaidd Cyfrwng Cymraeg. Mae nifer y myfyrwyr sy'n astudio rhai credydau drwy gyfrwng y Gymraeg wedi cynyddu, er bod hynny o niferoedd cychwynnol isel iawn yn 2015-16. Mae'r Brifysgol yn cysylltu'n agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae wedi penodi Hyrwyddwr y Gymraeg i ddatblygu ei chynnig addysgol ymhellach. Er enghraifft, mae Hyrwyddwr y Gymraeg yn cymryd rhan yn y broses 'SHAPE' sydd wedi'i llunio i wella datblygiad rhaglenni cyn eu dilysu (gwelwch baragraff 68).

1.4 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

14 Arweiniwyd y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad gan weithgor a sefydlwyd gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, sy'n cynnwys aelodau o Undeb y Myfyrwyr, aelodau o bob un o'r meysydd academaidd, ac aelodau o'r staff cymorth proffesiynol, dan gyd-gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor a'r Cofrestrydd Academaidd. Sefydlwyd rhagor o is-grwpiau i fapio gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU a Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd 2015. Gyda'i gilydd, cytunodd y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr i ddatblygu Dadansoddiad Hunanwerthuso ar y cyd, i'w ysgrifennu mewn is-grwpiau, gyda darnau wedi'u llunio ar y cyd gan Undeb y Myfyrwyr, a'i adrodd i bwyllgorau sydd â chynrychiolwyr arnynt o Undeb y Myfyrwyr gan gynnwys y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, y Bwrdd Academaidd a'r Bwrdd Llywodraethwyr.

1.5 Crynodeb byr o natur a rhesymeg y meysydd penodol y dylai'r adolygiad a'r hunanwerthusiad ganolbwyntio arnynt

15 Cynigiodd y Brifysgol dri maes i ganolbwyntio arnynt, ar sail eu rôl integrol yn y Strategaeth Dysgu. Mae dau o'r meysydd i ganolbwyntio arnynt yn llinynnau gwaith yn y Strategaeth Dysgu - 'dulliau asesu arloesol' a 'myfyrwyr fel partneriaid'. Mae'r trydydd maes i ganolbwyntio arno'n ymwneud ag 'effeithiolrwydd y dull dosranedig o weithredu'r Strategaeth Dysgu'.

16 Dewiswyd 'dulliau asesu arloesol' fel maes i ganolbwyntio arno oherwydd mae wedi bod yn un o'r meysydd i'w gwella gan y Brifysgol yn barod yn 2017-18 ac yn bwnc sydd wedi gweld gweithredu sylweddol. Roedd gwaith dadansoddi data wedi datgelu amrywiaeth sylweddol rhwng lefelau boddhad gwahanol fyfyrwyr gyda'r arferion asesu ac adborth, a chanfu fod myfyrwyr sydd ag anabledd yn llai tebygol o symud ymlaen neu gael gradd dda (1af/2:1). I ymateb i hyn, cymerodd y Brifysgol gamau i rannu'n ehangach o fewn y sefydliad, yr arferion da hynny a gafwyd ar raglenni lle'r oedd gan y myfyrwyr lefel uchel o foddhad â'u harferion asesu ac adborth. Cymerodd gamau hefyd i wneud yr asesiadau'n fwy hygyrch a chynhwysol. Mae hyn wedi'i drafod ymhellach ym mharagraff 93.

17 Dewiswyd 'myfyrwyr fel partneriaid' fel maes i ganolbwyntio arno oherwydd ystyriwyd hwn yn faes lle gwelwyd cryfder ac roedd hefyd wedi'i wella'n ddiweddar drwy sefydlu Undeb y Myfyrwyr annibynnol. Mae 'myfyrwyr fel partneriaid' hefyd yn un o brif amcanion y Strategaeth Dysgu.

18 Dewiswyd y ffocws ar effeithiolrwydd y dull dosranedig o weithredu'r Strategaeth Dysgu fel dull newydd o reoli ansawdd. Mae'r dull yn defnyddio Tîm Datblygu Academaidd a rhwydwaith o 'Gymdeithion' o bob rhan o'r Brifysgol i weithredu'r strategaeth.

1.6 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

19 Gwerthusodd QAA ymateb y Brifysgol i'r argymhellion yn ei hadolygiad QAA yn 2013 mewn Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr ym mis Mehefin 2016. Roedd y Brifysgol wedi adolygu ei rheoliadau ar gyfer arholi allanol i nodi y dylid samplu sgriptiau o bob un o'r safleoedd lle mae rhaglen benodol yn cael ei darparu. Anogir hyn yn y templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol, ac mae'r Gofrestrfa'n gwirio bod y gwaith samplu wedi'i gyflawni. Ymatebodd y Brifysgol i argymhelliad i wella'r adnoddau ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain drwy ei symud i safle gwahanol a gweithredu strategaeth adnoddau a staffio. Mae'r safle darparu hwn wedi cau ers hynny, wedi i'r holl fyfyrwyr yn Llundain gwblhau eu hastudiaethau. Mewn perthynas ag argymhelliad yn ymwneud â chanfod ac ymdrin â phroblemau gydag adnoddau dysgu, mae'r Brifysgol wedi cryfhau ei Ffurflen Gynnig Rhaglen Gychwynnol fel ei bod yn canfod gwybodaeth am ofynion o ran adnoddau. Yn ogystal, mae'r gweithdrefnau monitro blynyddol yn gofyn i Ddeoniaid y Cyfadrannau adolygu unrhyw broblemau gydag adnoddau ac mae'r gweithdrefnau'n rhoi pwerau gwario datganoledig iddynt. Yn olaf, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Llawlyfr Ansawdd Academaidd i nodi y dylai aseswyr allanol fod yn aelodau o banelau dilysu, ac mae'r broses o samplu adroddiadau dilysu wedi cadarnhau bod hyn yn digwydd.

20 Roedd yr Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr, a wnaed gan QAA ym mis Mehefin 2016, wedi canfod bod y Brifysgol wedi ymateb i naw o'r argymhellion a gododd o'r Adolygiad o Raddau Sylfaen, a wnaed gan QAA ym mis Mai 2013. Fodd bynnag, mae rhai arferion wedi newid ers hynny ac nid yw bellach yn ofynnol i gyflogwyr gymryd rhan yn y broses o ddilysu graddau sylfaen. Roedd yr Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr hefyd yn cadarnhau bod y Brifysgol wedi cymryd camau i ymdrin â chanfyddiadau Ymchwiliad Thematig QAA i Gampysau Prifysgolion y DU yn Llundain. Ym mis Mehefin 2018, caeodd y Brifysgol ei champws yn Llundain ar ôl anfon ei rhaglenni i gael eu 'haddysgu allan'.

21 Mae'r Brifysgol yn parhau â'i gwaith o ymateb i'r argymhellion a gododd o adolygiad QAA o ddarpariaeth addysg drawswladol y DU yn Hong Kong, oedd yn cynnwys samplau o waith y bartneriaeth rhwng Cymdeithas Rheolaeth Hong Kong (HKMA) a Phrifysgol Glyndŵr.

1.7 Manylion cyfrifoldebau'r darparwr am y ddarpariaeth addysg uwch y mae'n ei darparu ar ran y cyrff dyfarnu graddau y mae'n gweithio mewn partneriaeth â nhw

22 Er bod y Brifysgol yn dyfarnu graddau a addysgir, mae'n gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill i ddarparu addysg uwch. Roedd y Brifysgol wedi darparu graddau ymchwil ar ran Prifysgol Cymru ers 1993. Yn 2013, cytunodd y ddwy brifysgol i ddod â'r trefniant dilysu i ben unwaith yr oedd yr holl fyfyrwyr cofrestredig wedi cwblhau eu hastudiaethau. Mae un o is-bwyllgorau Pwyllgor Ymchwil y Brifysgol yn darparu goruchwyliaeth benodol i fyfyrwyr ar raglenni gradd Prifysgol Cymru, er mwyn sicrhau bod y rhaglenni'n parhau i gael eu halinio â Fframwaith Academaidd Cyffredin Prifysgol Cymru.

23 Ers 2015, mae'r Brifysgol wedi gweithio gyda Phrifysgol Caer i ddarparu rhaglenni MPhil a PhD yn unol ag Egwyddorion a Rheoliadau Prifysgol Caer. Mae'r nifer o fyfyrwyr cofrestredig wedi cynyddu'n raddol o 10 yn 2015-16 i 42 yn 2017-18. Mae'r adroddiadau monitro i Brifysgol Caer yn cael eu hystyried a'u cymeradwyo gan Bwyllgor Ymchwil Prifysgol Glyndŵr. Mae gan y Pwyllgor Ymchwil hefyd is-bwyllgor yn benodol i fyfyrwyr Prifysgol Caer, sy'n gweithredu fel bwrdd arholi. Yn 2018, argymhellodd adolygiad cyfnodol o'r bartneriaeth y dylid adnewyddu'r bartneriaeth am bum mlynedd arall hyd at 2023. Mae Strategaeth Ymchwil y Brifysgol yn bwriadu cymryd agwedd ochelgar tuag at gynyddu nifer y myfyrwyr ymchwil, gyda tharged o 5% o gynnydd bob yn flwyddyn hyd at uchafswm o 80 o fyfyrwyr erbyn 2022-23.

24 Mae gan y Brifysgol drwydded Pearson i gynnig Tystysgrifau a Diplomâu Cenedlaethol Uwch ac mae'n gwneud hyn yn bennaf mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach, yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria (gyda'r ddau'n darparu pedair Tystysgrif Genedlaethol Uwch). Mae'r Brifysgol yn darparu dau Ddiploma Cenedlaethol Uwch yn uniongyrchol.

2 Gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

2.1 Y dull strategol o wella profiad y myfyrwyr

25 Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn ddull 'o'r top i lawr' yn bennaf ac wedi'i yrru gan strategaethau, ond mae hefyd yn caniatáu ar gyfer mentrau o'r llawr i fyny dan anogaeth y staff a'r myfyrwyr. Pennir y fframwaith strategol gan Weledigaeth a Strategaeth drosfwaol y Brifysgol a'i 14 o strategaethau ategol, yn arbennig y Strategaeth Dysgu, a ddatblygwyd yn ystod 2017 drwy brosesau o ymgynghori a thrafod gyda'r myfyrwyr, y staff a'r rhanddeiliaid allanol megis cyflogwyr lleol.

26 Mae'r Strategaeth Dysgu'n nodi pum prif faes gweithredu: cwricwlwm sy'n berthnasol, 'addysgu gwych', dulliau asesu arloesol, cymorth wedi'i bersonoli, a myfyrwyr fel partneriaid. Mae gan y Bwrdd Academaidd y cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau gwelliant, ond mae'r datblygiad gweithredol yn cael ei arwain gan y Dirprwy Is-Ganghellor a'i fonitro'n agos gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd. Mae'r Brifysgol yn pennu thema gwelliant ar gyfer bob blwyddyn sy'n cael ei datblygu a'i monitro'n systematig drwy sefydlu gweithgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen arbenigol sy'n gweithio ar draws y Brifysgol. Dyma'r themâu gwelliant blynyddol mwyaf diweddar a'r rhai arfaethedig: 'Arferion Asesu ac Adborth' 2017-18, 'Gallu Digidol' 2018-19, 'Cyflogadwyedd' 2019-20; ond mae rhai o'r themâu'n ymestyn dros nifer o flynyddoedd academaidd. Clywodd y tîm adolygu dystiolaeth gan y staff a'r myfyrwyr eu bod wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r themâu blynyddol hyn.

27 Mae'r Brifysgol wedi datblygu mecanweithiau clir ar gyfer cyfathrebu, monitro a gwerthuso ei mentrau gwella strategol. Mae'n defnyddio'r model 'ADRI' o welliant parhaus (ystyr yr acronym Saesneg yw datblygu, gweithredu, adolygu a gwella) i ganolbwyntio'n arbennig ar newidiadau trefniadol i ddulliau dysgu ac addysgu'r Brifysgol. Yn 2014, caeodd y Brifysgol ei huned datblygiad addysgol ganolog ac, o 2016 ymlaen, mae hi wedi datblygu system newydd i'r Brifysgol gyfan ar gyfer cefnogi newidiadau trefniadol mewn dysgu ac addysgu. Arweinir y Tîm Datblygu Academaidd craidd gan y Dirprwy Is-Ganghellor ac mae'n cynnwys y Deoniaid Cyswllt ar gyfer Materion Academaidd a'r Deoniaid Cyswllt ar gyfer Ymgysylltiad Myfyrwyr o bob un o'r ddwy gyfadran, ynghyd â rhwydwaith drwy'r Brifysgol gyfan o staff o'r gwasanaethau academaidd a phroffesiynol sydd wedi gwirfoddoli i fod yn 'Gymdeithion' y Tîm Datblygu Academaidd.

28 Mae'r Tîm Datblygu Academaidd a'i gymdeithion wedi cydweithio mewn timau gyda ffocws ar ystod o brosiectau trefniadol, gan gynnwys: trawsnewid arferion asesu ac adborth, cyflogadwyedd, dysgu gyda chymorth technoleg, gallu digidol, Cymrodoriaethau'r Academi Addysg Uwch ac Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid. Mae dulliau'r Tîm Datblygu Academaidd ar gyfer datblygu a chefnogi prosiectau gwella wedi'u disgrifio gan y Brifysgol fel model ddosranedig o gyfrifoldeb am newidiadau, sydd wedi'i seilio i raddau mawr ar wirfoddoli yn hytrach nag awdurdod hierarchaidd.

29 Archwiliodd y tîm adolygu effeithiolrwydd dulliau'r Tîm Datblygu Academaidd ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Dysgu a sicrhau newidiadau, a bu'n archwilio amrediad o wahanol ffynonellau a data yn ymwneud â chymorth i fyfyrwyr, ac ymgysylltiad, cadwraeth a chynnydd y myfyrwyr. Er bod y canlyniadau yma'n gyffredinol bositif, penderfynodd y tîm, ar sail y dystiolaeth oedd ar gael iddynt, ei bod hi'n rhy fuan i ddod i gasgliadau terfynol am effeithiolrwydd dulliau'r Tîm Datblygu Academaidd o ran cyflawni amcanion i wella. Roedd y staff a gyfarfu â'r tîm

adolygu'n bositif am y newidiadau a gyflwynwyd, ond roeddent hefyd yn ystyried ei bod hi'n rhy fuan i fesur y canlyniadau. Yr hyn oedd yn amlwg i'r tîm adolygu oedd y lefelau uchel o ymwybyddiaeth ymysg y staff a'r myfyrwyr o'r gwelliant, y Strategaeth Dysgu, a'r newidiadau a wnaed, yn arbennig i'r meysydd arferion asesu ac adborth, a chymorth wedi'i bersonoli ar gyfer dysgu'r myfyrwyr. Roedd hi'n amlwg bod lefel y gefnogaeth gan y staff a'r myfyrwyr i'r elfennau hyn yn uchel hefyd. Disgrifiodd arweinwyr y Brifysgol ei dull cyffredinol fel un sydd wedi'i lunio i newid y diwylliant sefydliadol i fod yn ddiwylliant sy'n canolbwyntio'n systematig ar wella profiad dysgu'r myfyrwyr. Roedd hi'n amlwg bod y staff yn frwdfrydig ynglŷn â'r strategaethau a'r cynlluniau cyfredol, a bod y myfyrwyr yn ymwybodol iawn o newidiadau positif. Mae'r casgliad yma'n ategu'r ganmoliaeth ym mharagraff 62.

2.2 Y dull o weithio mewn partneriaeth â'r myfyrwyr

30 Mae'r Brifysgol wedi datblygu cyfranogaeth y myfyrwyr yn y gwaith o reoli'r dysgu a'r addysgu mewn dwy brif ffordd: Yn gyntaf, mae capasiti ac ymreolaeth Undeb y Myfyrwyr wedi cynyddu ers 2016 pan ddaeth Urdd y Myfyrwyr gynt yn undeb annibynnol gyda statws elusennol. Mae'r cynnydd yn ei grant bloc gan y Brifysgol wedi galluogi iddi gynyddu'r nifer o'i staff proffesiynol o ddau i wyth, a darparu amrywiaeth well o wasanaethau, gan gynnwys cymryd y cyfrifoldeb am reoli system cynrychiolaeth myfyrwyr ar gyfer cyrsiau, gweithredu Canolfan Cyngor a chyflogi cynghorydd myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg. Yn ail, mae Polisi Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd y Brifysgol wedi diffinio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn cefnogi'r myfyrwyr ac yn eu galluogi i ymgysylltu â gweithgareddau sicrhau a gwella ansawdd, a chymryd rhan ynddynt, ac i roi adborth am eu profiad dysgu fel myfyrwyr, o'r cam derbyn hyd y graddio. Un arwydd o'r rôl bwysig y mae swyddogion etholedig Undeb y Myfyrwyr yn ei chwarae yn y gwaith o reoli profiad dysgu'r myfyrwyr yw eu cyfraniad at Ddadansoddiad Hunanwerthuso'r Brifysgol ar gyfer yr adolygiad hwn. Ysgrifennwyd y Dadansoddiad ar y cyd gydag Undeb y Myfyrwyr, ac mae'n cynnwys adran o 14 tudalen, gydag Undeb y Myfyrwyr yn brif awdur arni, sy'n disgrifio'r ffordd y mae'r Brifysgol a'r corff myfyrwyr yn gweithio gyda'i gilydd.

31 Cynrychiolir y myfyrwyr gan y swyddogion y maent yn eu hethol, sef Llywydd ac Is-lywydd Undeb y Myfyrwyr fel arfer, ar brif bwyllgorau llywodraethu'r Brifysgol, sy'n cynnwys y Bwrdd Llywodraethwyr, y Bwrdd Academaidd a'r ddau Fwrdd Cyfadran.
Mae modd i gynrychiolwyr y myfyrwyr fod yn aelodau o banelau dilysu rhaglenni a gweithredu fel cynrychiolwyr iddynt ar banelau sy'n ymdrin â chwynion, apeliadau a disgyblaeth myfyrwyr. Mae'r myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar fwy nag 20 o gyrff penderfynu allweddol y Brifysgol. Roedd hi'n amlwg o'r cyfarfodydd gyda'r swyddogion myfyrwyr etholedig bod ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r ffordd y mae'r Brifysgol yn cael ei rheoli, a bod cyfleoedd iddynt gynrychioli safbwynt y myfyriwr i lywodraethwyr ac uwch reolwyr.

32 Mae'r system cynrychiolwyr cwrs, a weithredir gan Undeb y Myfyrwyr ers 2016-17, yn sicrhau bod cynrychiolaeth o blith y myfyrwyr ar lefel y rhaglenni ac ar Fyrddau'r Cyfadrannau. Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant un-i-un ac ar-lein i gynrychiolwyr myfyrwyr ac roedd ar y trywydd cywir i hyfforddi o leiaf 75% o'r holl gynrychiolwyr. Ar amser yr adolygiad, roedd pob un o'r rhaglenni wedi dethol o leiaf un cynrychiolydd myfyrwyr, ac roedd hynny'n wir yn 2017-18 hefyd. Y ffordd bennaf y mae cynrychiolwyr cwrs yn cynrychioli barn y myfyrwyr yw trwy fynd i Fforymau Llais y Myfyrwyr, sy'n cyfarfod o leiaf unwaith y semester ar gyfer pob rhaglen.

33 Hefyd, mae modd i gynrychiolwyr cwrs gyflwyno unrhyw bryderon sydd gan fyfyrwyr yn fwy uniongyrchol drwy drefnu cyfarfodydd gydag arweinwyr y rhaglenni, a Deoniaid y Cyfadrannau neu'r Deoniaid Cyswllt. Fodd bynnag, ers mis Tachwedd 2017, mae'r systemau ar-lein a elwir yn 'Ask Glyn' a 'Tell Glyn' yn darparu llwybr pwysig i farn y myfyrwyr, sy'n galluogi i'r myfyrwyr gyfathrebu'n uniongyrchol a bron ar unwaith ag arweinwyr y rhaglenni, cynrychiolwyr y myfyrwyr ac aelodau perthnasol o staff y gwasanaethau proffesiynol. Hefyd,

mae'r myfyrwyr yn cwblhau'r Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau, sef holiadur adborth ar-lein a weithredir ar ôl tair wythnos gyntaf pob cyfnod addysgu ac ar ddiwedd cyfnod darparu pob modiwl, sy'n hysbysu prosesau rheoli modiwlau a rhaglenni'r Brifysgol. Roedd y cyfraddau ymateb i'r Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf ac roeddent yn aml yn uwch nag 80%. Ystyrir data'r Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau yn rhan o'r broses fonitro flynyddol.

34 Mae'r Brifysgol yn darparu llwybrau hygyrch ac effeithiol i'w myfyrwyr i leisio unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd ganddynt am yr addysgu neu am y cymorth neu'r adnoddau dysgu. Mae canfyddiadau Adroddiadau Llais y Myfyrwyr blynyddol gan Undeb y Myfyrwyr i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, a sylwadau gan y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n cadarnhau bod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr roi adborth, a bod yr wybodaeth hon yn cael ei hystyried yn systematig gan y Brifysgol. Fodd bynnag, mae'r prif fecanweithiau ar lefel y cyfadrannau yn bennaf yn casglu adborth gan y dysgwyr, ond nid ydynt o anghenraid yn golygu bod y myfyrwyr yn cael eu cynnwys, yn unigol nac ar y cyd, yn bartneriaid yn y prosesau o sicrhau a gwella eu profiad addysgol, neu yn y gwaith o reoli rhaglenni ac adnoddau dysgu. Mae'r tîm adolygu'n **cadarnhau**'r camau a gymerir i gydweithio â myfyrwyr a addysgir fel partneriaid wrth gyd-ddatblygu, rheoli a gwerthuso eu profiad fel myfyrwyr.

2.3 Cydnabod ac ymateb i'r amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr, gan gynnwys dulliau o ehangu mynediad, anghenion grwpiau penodol o fyfyrwyr, ac ystyried y dull astudio, lefel yr astudio a'r lleoliad astudio

35 Mae cyfrannau uchel o'r myfyrwyr ym Mhrifysgol Glyndŵr yn dod o grwpiau sydd heb eu cynrychioli'n ddigonol mewn addysg uwch, ac o grwpiau sy'n debygol o wynebu anawsterau wrth fynd i mewn i addysg ac ymgysylltu mewn addysg. Yn ôl data'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch ar gyfer 2016-17, roedd gan y Brifysgol y cyfrannau uchaf o fyfyrwyr o ardaloedd o gyfranogaeth isel, ac o'r rheiny sy'n mynd i mewn i addysg uwch am y tro cyntaf o ysgolion gwladol, allan o'r holl brifysgolion yn y DU, ac roedd y safle hwn yn ail yn y DU o ran y nifer o fyfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. Mae poblogaeth y myfyrwyr hefyd yn cynnwys cyfrannau mawr o fyfyrwyr hŷn, myfyrwyr sy'n gadael gofal, a'r rheiny sy'n agored i anawsterau personol, cymdeithasol ac economaidd a allai eu rhwystro rhag cymryd rhan a llwyddo. Yn 2017, nododd 'Good University Guide' y Times a'r Sunday Times mai'r Brifysgol hon oedd y fwyaf cymdeithasol gynhwysol o holl brifysgolion y DU ar y pryd.

36 Y rheswm, yn rhannol, am gyfansoddiad poblogaeth myfyrwyr y Brifysgol yw'r ffaith fod y Brifysgol yn ddaearyddol agos at ardaloedd o gyfranogaeth isel mewn addysg uwch yn Nwyrain a Gogledd Ddwyrain Cymru, a'r ffaith fod ganddi weithgareddau recriwtio pwrpasol a llwyddiannus a luniwyd i estyn at, ac i gefnogi, ceisiadau gan bobl ifanc sydd wedi'u hymddieithrio, oedolion sy'n economaidd anweithgar, a'r rheiny sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd uchel. Mae Cynlluniau Mynediad a Ffioedd y Brifysgol yn dangos ei hamcanion nodedig o ran recriwtio, ac hefyd ei chyflawniadau o ran denu myfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a chefnogi cyflogadwyedd a nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

37 Mae'r Brifysgol wedi ymateb i amrywiaeth poblogaeth ei myfyrwyr drwy ei hymrwymiadau strategol i ddiwylliant cynhwysol sydd heb unrhyw wahaniaethu, a thrwy ganolbwyntio ei pholisïau a'i chynlluniau'n arbennig ar wella cyfraddau presenoldeb, cadwraeth, parhad a chynnydd ymysg ei myfyrwyr. Mae'r perfformiad yn y meysydd yma'n cael ei fonitro yn erbyn targedau penodol ymhob cyfarfod y Bwrdd Llywodraethwyr a'r Bwrdd Academaidd, ac hefyd gan Fwrdd yr Is-Ganghellor bob tair wythnos. Mae is-bwyllgor arbenigol y Bwrdd Academaidd, sef y Grŵp Mynediad a Chadwraeth o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor, yn cynnal goruchwyliaeth fanwl o'r ddarpariaeth, gyda ffocws ar grwpiau penodol o'r myfyrwyr. Unwaith y mae manylion y myfyrwyr hynny sydd mewn perygl yn hysbys, codir y mater gyda Deoniaid y Cyfadrannau a'r Deoniaid Cyswllt er mwyn sicrhau y gwneir ymyriad wedi'i dargedu. Hefyd, derbyniodd

y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod y gwasanaethau cwnsela, cyngor a chyflogadwyedd a ddarperir gan Dîm Bywyd Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws y Brifysgol yn hygyrch. Cadarnhawyd yn y cyfarfodydd gyda'r myfyrwyr bod ystod lawn o wasanaethau cymorth ar gael yn hawdd iddynt.

2.4 Profiad y myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir a'r myfyrwyr ymchwil

38 Nid oes gan y Brifysgol ei phwerau dyfarnu graddau ymchwil ei hun ond mae'n cofrestru ac yn goruchwylio myfyrwyr ymchwil o dan drefniadau partneriaeth gyda Phrifysgol Caer a Phrifysgol Cymru. Dyma'r dyfarniadau sydd ar gael i'r myfyrwyr: graddau meistr mewn athroniaeth (MPhil), graddau doethuriaeth (PhD) a Doethuriaethau Proffesiynol. Mae cyfrannau sylweddol o'r myfyrwyr ymchwil cofrestredig yn aelodau o staff y Brifysgol a/neu yn fyfyrwyr sy'n astudio'n rhan amser.

39 Sefydlwyd y bartneriaeth gyda Phrifysgol Cymru yn 1993, ond cytunodd y ddwy brifysgol i ddod â'r trefniant i ben yn 2013 a pheidio â chofrestru unrhyw fyfyrwyr Prifysgol Cymru newydd o'r flwyddyn academaidd 2013-14 ymlaen. Mae'r myfyrwyr oedd wedi'u cofrestru'n barod wedi parhau i gael eu goruchwylio a'u cefnogi yn unol â gweithdrefnau Prifysgol Cymru. Yn 2017-18, roedd 34 o fyfyrwyr yn paratoi ar gyfer dyfarniadau Prifysgol Cymru a disgwylir i'r nifer hwn ostwng yn raddol.

40 Yn 2015, cytunodd y Brifysgol ar drefniant partneriaeth gyda Phrifysgol Caer a chofrestrodd ei myfyrwyr cyntaf ym mis Ionawr 2016. Yn 2017-18, roedd 42 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru o dan y trefniant yma. Derbyniodd y bartneriaeth gyda Phrifysgol Caer Adolygiad Cyfnodol o Bartneriaeth cadarnhaol yn 2018 a chafodd ei hadnewyddu am bum mlynedd arall.

41 Mae angen trefniadau ychydig yn wahanol ar gyfer monitro cynnydd y myfyrwyr yn rheolaidd ac adrodd amdano a dylid gweithredu'r rhain ar gyfer y ddau grŵp o fyfyrwyr, un o bob corff dyfarnu perthnasol. Ar amser yr adolygiad, roedd y gweithdrefnau hyn ar bapur, a chyflwynid adroddiadau o bob cyfarfod rhwng y myfyrwyr a'u goruchwylwyr i Swyddfa Ymchwil Prifysgol Glyndŵr a byddent yn derbyn ystyriaeth gan Is-bwyllgorau Graddau Ymchwil y Brifysgol ar gyfer pob un o'r ddau gorff dyfarnu. Ar amser yr adolygiad, roedd y Brifysgol yn bwriadu cyflwyno system adrodd a monitro ar-lein o ddechrau'r flwyddyn academaidd 2019-20.

42 Roedd y myfyrwyr ymchwil a'r goruchwylwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n hyderus y byddai unrhyw broblemau yn eu goruchwyliaeth neu eu cynnydd yn cael eu nodi'n gyflym gan y Swyddfa Ymchwil a'u hadrodd i'r Pwyllgor Ymchwil a'r Deon Cyswllt ar gyfer Ymchwil ymhob un o'r cyfadrannau perthnasol. Mae'r Deoniaid Cyswllt hefyd yn adolygu'r adroddiadau monitro blynyddol i weld beth yw cynnydd pob myfyriwr ymchwil. Mae pob un o'r myfyrwyr yn gallu cael gafael ar yr un adnoddau academaidd ac adnoddau ymchwil, ac roedd yr adnoddau hyn yn cynnwys Tiwtor Datblygu Ymchwilwyr rhan amser, a benodwyd ym mis Ebrill 2016, ac roedd y myfyrwyr yn canmol cymorth y Tiwtor yma gyda'r broses o sicrhau neu wneud cais am adnoddau ymchwil neu gyllido.

43 Ym mis Ebrill 2018, derbyniodd y Brifysgol 'Adroddiad am y Ddarpariaeth Ymchwil Ôl-raddedig ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam' gan academydd allanol. Roedd yr adroddiad yn canmol nifer o feysydd oedd yn cynnwys: y cyfarfodydd 'Drws Agored i Ymchwilwyr' lle gall myfyrwyr gyflwyno eu gwaith cyfredol, y gefnogaeth a roddir i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gan y staff cymorth penodol, ac ymrwymiad goruchwylwyr unigol oedd wedi cymryd rhan yn yr adolygiad hwnnw. Fodd bynnag, gwnaeth yr arbenigwr allanol ddeg argymhelliad penodol a nododd ystod o feysydd sydd angen eu gwella, yr oedd llawer ohonynt yn berthnasol i brofiad y myfyrwyr. Roedd y problemau a amlygwyd yn cynnwys prinder arian i alluogi i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig deithio a mynd i gynadleddau, problemau gydag ystyried llais y myfyriwr ac ymgysylltu â'r myfyrwyr, problemau gyda meincnodi adborth gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig

a'u cynnydd yn erbyn y sector, prosesau cynefino myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, ac amgylcheddau ymchwil annigonol mewn rhai meysydd.

44 Sefydlodd y Brifysgol grŵp gorchwyl a gorffen i ystyried yr adroddiad allanol ac i baratoi ei adroddiad ei hun, ynghyd â gwneud argymhellion, i Bwyllgor Ymchwil y Brifysgol ym mis Hydref 2018. Dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y Pwyllgor Ymchwil wedi derbyn yr argymhellion hyn, a oedd yn ymwneud i raddau mawr â phrosesau a oedd yn effeithio ar fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, megis prosesau cynefino a goruchwylio'r myfyrwyr hynny, a darparu mannau ac adnoddau iddynt. Dywedwyd hefyd bod yr argymhellion hyn naill ai wedi'u gweithredu neu yn y broses o dderbyn sylw. Cytunwyd hefyd y byddai'r gwaith o fonitro'r adborth gan fyfyrwyr yn barhaus yn rhan angenrheidiol o'r gwaith o reoli profiad y myfyrwyr.

45 Ni welodd na chlywodd y tîm adolygu unrhyw dystiolaeth uniongyrchol i ddangos problemau gyda'r oruchwyliaeth neu ddiffyg cymorth o ran adnoddau i fyfyrwyr ymchwil. Roedd hi'n ymddangos bod cyfranogaeth y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn gyfyngedig yn y cyfleoedd sy'n agored i'r myfyrwyr roi adborth am eu profiad fel myfyrwyr, cyfleoedd sy'n cynnwys fframwaith eu cysylltiadau gyda'u goruchwylwyr a'r defnydd a wnânt o'r cyfleuster 'Tell Glyn'. Mae gan y myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig un cynrychiolydd ar y Pwyllgor Ymchwil a dim ond yn ddiweddar yr oedd y cynrychiolydd cyfredol wedi'i benodi i'r rôl. Mae gan y staff sydd wedi'u cofrestru ar gyfer graddau ymchwil un cynrychiolydd arall. Roedd y Brifysgol wedi trefnu Fforymau Llais y Myfyrwyr i fyfyrwyr ymchwil ond dim ond un myfyriwr oedd wedi mynd i'r ddau olaf. Yn dilyn hynny, trefnwyd Fforwm Llais y Myfyrwyr ar-lein yn ystod 2018, ond dim ond un ymateb dderbyniwyd ac roedd hwnnw gan fyfyriwr oedd wedi cwblhau ac a oedd yn ganmoliaethus iawn. Roedd y Pwyllgor Ymchwil wedi adolygu'r opsiwn o ail gyflwyno'r Arolwg Profiad Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig fel ffordd o gasglu a meincnodi barn a boddhad y myfyrwyr ymchwil, ond roedd wedi penderfynu ym mis Ionawr 2019 bod y gost i fyfyrwyr cofrestredig ddefnyddio'r arolwg (sef £76 y pen ar hyn o bryd) yn uwch na'r buddion. Roedd yr adroddiad mwyaf diweddar oedd ar gael am ganlyniadau holiadur adborth mewnol y Brifysgol ar gyfer myfyrwyr ymchwil yn dyddio o fis Mehefin 2017. Roedd 45 o fyfyrwyr wedi ymateb i'r holiadur hwnnw. Er bod boddhad uchel ymysg y myfyrwyr gyda'u timau goruchwylio (90%) a'r hyfforddiant sgiliau ymchwil (76%), roedd lleiafsymiau arwyddocaol o fyfyrwyr wedi mynegi pryderon am yr amgylchedd ymchwil, yr adnoddau academaidd a'r adnoddau ffisegol. Roedd arolwg ar-lein mewnol arall, a agorodd ym mis Mehefin 2018 ac a gaeodd ym mis Chwefror 2019, yn dal heb gael ei ddadansoddi, a byddai adroddiad amdano'n dod i'r Pwyllgor Ymchwil ym mis Mai 2019. Fodd bynnag, byddai rhychwant yr arolwg wedi'i gyfyngu gan y ffaith mai dim ond 25% o'r myfyrwyr oedd wedi'i gwblhau. Mae'r ffurflenni monitro blynyddol a ddychwelir ar gyfer myfyrwyr y ddwy brifysgol ddilysu'n cynnwys adborth gan fyfyrwyr unigol, a phan fydd yr adborth hwn yn gyffredinol berthnasol, mae'r Pwyllgor Ymchwil yn ei ystyried ac yn gweithredu arno. Yng nghyd-destun Disgwyliadau *B5* a *B11* Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, argymhellion cyfredol yr adolygiad allanol o'r ddarpariaeth ymchwil ôl-raddedig, y gwaith parhaus i ymdrin â nhw, a bwriad y Brifysgol i wneud cais am bwerau dyfarnu graddau ymchwil maes o law, mae'r tîm adolygu'n **argymell** bod y Brifysgol yn dwysáu ei hymdrechion i gasglu adborth yn systematig gan ei myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ac ymgysylltu â nhw. Yn y cyd-destun yma, dylai'r Brifysgol sicrhau bod yr adborth yn cael ei werthuso mewn da bryd i gael ei ystyried gan y Pwyllgor Ymchwil, a dylai adolygu'r mecanweithiau y mae'n eu defnyddio i annog ei myfyrwyr i fanteisio ar y cyfleoedd i roi adborth ac hefyd i gyfranogi yn y gwaith o lunio camau gweithredu i ymateb i'r adborth hwnnw.

2.5 Cefnogi'r myfyrwyr i'w datblygu fel dysgwyr

46 Fel y nodwyd ym mharagraff 29, mae'r Brifysgol wedi llunio a dosbarthu strategaeth glir ar gyfer cefnogi myfyrwyr gyda'u dysgu, ac mae'r myfyrwyr a'r staff yn deall y strategaeth yn dda ac yn ei gwerthfawrogi. Mae'r Strategaeth Dysgu, a ddatblygwyd ar y cyd â'r myfyrwyr yn 2017, yn nodi amcanion clir sy'n cael eu monitro drwy ddefnyddio cynllun gweithredu, ac mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd hefyd yn monitro'r targedau'n rheolaidd. Cydnabuwyd

nodweddion arbennig y dull hwn fel cryfderau yn Natganiad o Ganfyddiadau 2017 y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu, gan nodi'n benodol brosesau o gynllunio cyrsiau, arferion asesu a dysgu seiliedig ar waith, sy'n sicrhau bod cwricwlwm yn berthnasol i'r cyflogwyr yn y rhanbarth. Mae'r Strategaeth Dysgu wedi'i chysylltu'n agos â Strategaeth a Chynllun Gweithredu'r Brifysgol ar gyfer Cyflogadwyedd: mae 85% o'r rhaglenni'n cynnwys credydau am ddysgu cysylltiedig â gwaith, ac mae traean o'r cwricwla wedi derbyn cydnabyddiaeth gan gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio.

47 Gwneir y gwaith o ddysgu ac addysgu yng nghyd-destun poblogaeth myfyrwyr y mae 88.9% ohoni'n dod o ardaloedd o gyfranogaeth isel (POLAR3) ac/neu sy'n fyfyrwyr hŷn ac/neu sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl. Dangosodd y dystiolaeth a welwyd ac a glywyd gan y tîm adolygu bod ffocws canolog ar wella cyfraddau cadwraeth drwy gefnogi presenoldeb, cyflawniad a chynnydd. Mae'r data a ddarparwyd gan y Brifysgol yn dangos gwelliannau sylweddol yn y cyfraddau cadwraeth a chynnydd ers 2015-16, er bod cyfradd y gwelliant wedi arafu dros amser. Mae dull craidd o wella cyfraddau cadwraeth, cynnydd a pharhad ymysg y myfyrwyr wedi bod yn ffocws yn y 'cymorth wedi'i bersonoli', sef un o bum blaenoriaeth y Strategaeth Dysgu, sy'n cael ei deilwra i anghenion myfyrwyr unigol.

48 Mae dull y Brifysgol o ddarparu 'cymorth wedi'i bersonoli' yn amlochrog ac yn gynhwysfawr. Mae'r dull yn cynnwys y canlynol: cyngor ac arweiniad i'r unigolyn sydd ar gael yn hawdd, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb; modiwlau ychwanegol i fagu hyder sy'n paratoi dysgwyr newydd neu ddysgwyr sy'n dychwelyd i addysg uwch; dulliau electronig o fonitro presenoldeb sy'n galluogi i'r Brifysgol ymateb yn gyflym pan fo myfyrwyr yn absennol yn aml; gwell system diwtora bersonol, y mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda ohoni, sydd wedi'i hintegreiddio gyda mynediad 'drws agored' i staff addysgu'r gwasanaethau academaidd a phroffesiynol; dull clir o asesu a rhoi adborth ar gyfer y sefydliad cyfan; defnydd drwy'r brifysgol gyfan o system electronig i fyfyrwyr gyflwyno adborth ac i ymateb i'r myfyrwyr; rhith-amgylchedd dysgu (RhAD) sydd wedi darparu cyfleoedd dysgu cyfunol a deunyddiau ar-lein ymhob rhaglen.

49 Mae'r rhain yn ddulliau o gefnogi dysgu sy'n cael eu defnyddio'n gyffredinol yn y sector addysg uwch, ond maent yn cael eu cyflwyno'n aml mewn ffyrdd sy'n ddatgymalog a ffyrdd nad yw cyfrannau sylweddol o'r myfyrwyr a'r staff yn eu deall yn dda iawn. Bu'r tîm adolygu'n canolbwyntio'n benodol ar brofi a oedd y dystiolaeth yn dangos bod y myfyrwyr a'r staff yn deall y dulliau newydd hyn, a chanfu'r tîm eu bod yn llwyddo i wella'r ymgysylltiad â'r myfyrwyr mewn gwirionedd. Rhoddodd y Brifysgol dystiolaeth fanwl am gynlluniau gweithredu a'r gwaith o fonitro eu canlyniadau ar draws yr holl feysydd lle'r oedd newidiadau'n cael eu rheoli, ac roedd y dystiolaeth hon yn galluogi i'r tîm adolygu archwilio honiadau a gweld yn glir yr hyn a gyflawnwyd ac ymhle'r oeddent yn disgwyl gweld rhagor o lwyddiannau. Er enghraifft, gwelodd a chlywodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod staff academaidd ar gael yn hawdd i roi cyngor i'r myfyrwyr, gan weithredu'r 'polisi drws agored', a bod cymorth personol neu dechnegol, megis cwnsela neu arweiniad a chymorth yn ymwneud â thechnoleg gwybodaeth, ar gael ac yn effeithiol.

50 Canfu'r tîm adolygu dystiolaeth dda i ddangos bod y Brifysgol wedi gwneud defnydd llwyddiannus o'i maint bychan, y system newydd o ddwy gyfadran, a'r dull dosranedig o weithredu Tîm Datblygu Academaidd i sicrhau newidiadau, er mwyn cyflwyno gwelliannau sylweddol i brofiad dysgu ei myfyrwyr dros gyfnod cymharol fyr. Nid oedd pob un o'r targedau ar gyfer canlyniadau wedi'u cyflawni eto, ond mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gwaith pwrpasol ac effeithiol a wneir i fonitro a chefnogi myfyrwyr unigol mewn ffordd wedi'i phersonoli er mwyn hwyluso eu datblygiad academaidd.

2.6 Yr amgylchedd dysgu a ddarperir, gan gynnwys y defnydd a wneir o dechnoleg

51 Mae'r Brifysgol yn ymdrin yn systematig ag anghenion am adnoddau dysgu yn rhan o'i rownd gynllunio flynyddol. Mae amcanion allweddol wedi'u nodi yn y *Strategaeth Ystadau ac Amgylchedd Dysgu: Campws 2025*, ac mewn Cynllun Gweithredu Adnoddau Dysgu a Thechnoleg Gwybodaeth. Ar amser yr ymweliad adolygu, y thema gwelliant sefydliadol ar gyfer y flwyddyn oedd 'gallu digidol', a datblygwyd Strategaeth Ddigidol i'r Brifysgol drwy ymgynghori â'r myfyrwyr a'r staff ymhob rhan o'r sefydliad. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi canolbwyntio ar ddatblygu'r adnoddau staffio sy'n angenrheidiol i gefnogi'r amcanion o ran darparu cymorth wedi'i bersonoli sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth Dysgu, ac mae'n debygol bod hyn wedi cyfrannu at welliannau sylweddol yng nghanlyniadau'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF) ar gyfer y cwestiynau ynglŷn â Chymorth Academaidd a Chyngor ac Arweiniad. I'r gwrthwyneb, er bod sgorau'r ACF diweddaraf ar gyfer adnoddau dysgu (77%) yn well na'r blynyddoedd blaenorol, roeddent yn parhau'n is na chyfartaledd y sector yng Nghymru (86%). Fodd bynnag, canfu'r tîm adolygu bod y Brifysgol wedi buddsoddi mewn uwchraddio ystafelloedd ac offer addysgu, a bod cylch o ailwampio ar waith.

52 Er bod hon yn brifysgol sydd â chyfran uchel o raglenni cymhwysol sy'n gofyn cyfleusterau ac offer technegol, roedd hi'n nodedig bod y sylwadau gan y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n gyson gadarnhaol am yr offer arbenigol a'r cymorth technegol sydd ar gael iddynt. Yng nghanlyniadau'r ACF mwyaf diweddar, roedd y gyfran o atebion cadarnhaol i'r cwestiwn "Rydw i wedi gallu cael mynediad i adnoddau penodol i fy nghwrs" wedi codi o 75% i 80%. Gwelodd y tîm dystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn perthynas â gwneud defnydd effeithiol o ddulliau cipio darlithoedd a'u storio yn y cwmwl a'r rhith-amgylchedd dysgu (RhAD) ar gyfer dysgu ac addysgu, gyda chefnogaeth mentoriaid RhAD i hyfforddi staff a Hwyluswyr Dysgu Digidol er mwyn helpu'r myfyrwyr a'r staff ymhob un o'r ddwy gyfadran. Bu'r myfyrwyr israddedig a'r myfyrwyr ôl-raddedig yn siarad yn gadarnhaol â'r tîm adolygu am y cymorth sydd ar gael iddynt gan y Ddesg Wybodaeth yn y llyfrgell a'r parodrwydd i brynu mynediad at lyfrau ac adnoddau eraill, yn aml mewn ymateb i sylwadau a roddwyd gan fyfyrwyr ar 'Tell Glyn'. Roedd y Brifysgol yn agos at ei tharged i sicrhau bod 80% o'i staff addysgu'n cyflawni statws Cymrawd yr Academi Addysg Uwch, ac roedd cyfraddau cyfranogaeth mewn digwyddiadau datblygiad staff yn uchel.

2.7 Cefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg

53 Ar lefel strategol, mae'r Brifysgol yn nodi ymrwymiad pendant i gynnig darpariaeth addysg uwch gyfrwng Cymraeg yn ei 'Gweledigaeth a Strategaeth', sydd wedi'i ategu gan ei Pholisi Iaith Gymraeg. Yn ogystal, mae'r Strategaeth Dysgu'n cynnwys targedau penodol ar gyfer darpariaeth gyfrwng Cymraeg. Datblygiad positif arall yw penodiad Hyrwyddwr y Gymraeg, a ddigwyddodd yn ddiweddar, i weithio gyda'r cyfadrannau i ddatblygu cyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg. Mae Cynllun Datblygu Academaidd Cyfrwng Cymraeg, sy'n cael ei fonitro gan y Grŵp Mynediad a Chadwraeth, yn amlinellu blaenoriaethau allweddol mewn perthynas â thargedau'r Strategaeth Dysgu. Mae datblygiad darpariaeth academaidd gyfrwng Cymraeg wedi cael ei wahanu'n briodol oddi wrth y gwaith o reoli cydymffurfiad â'r Safonau Iaith Gymraeg, sy'n cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Monitro Iaith Gymraeg. Roedd hi'n anogol gan y tîm adolygu weld bod y broses 'SHAPE' yn ystyried cyfleoedd strategol ar gyfer y dyfodol mewn perthynas â datblygiad rhaglenni a'r iaith Gymraeg (ystyr yr acronym Saesneg 'SHAPE' yw cefnogi dull cyfannol o wella rhaglenni, gwelwch baragraff 68).

54 Datblygiad positif arall oedd sefydlu cangen o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2017-18, gyda swydd ei Swyddog Cangen yn cael ei hariannu gan y Coleg. Rôl y Swyddog Cangen yw datblygu cymuned myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn y Brifysgol a'u hannog i fanteisio ar gyfleoedd dysgu cyfrwng Cymraeg. Roedd y swydd yma'n wag pan ymwelodd y tîm adolygu, ond roedd

y staff yn ystyried rôl Swyddog Cangen y Coleg yn ddefnyddiol iawn o ran magu hyder y myfyrwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg.

55 Roedd y myfyrwyr israddedig cyfrwng Cymraeg a gyfarfu â'r tîm arolygu'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n briodol yn eu hastudiaethau, gan nodi bod tiwtor personol Cymraeg ar gael iddynt os byddent yn dymuno hynny, a gan dynnu sylw at y ffaith fod lleoliadau gwaith cyfrwng Cymraeg ar gael, ynghyd â chydlynwyr penodol Cymraeg, ac roeddent yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae'r Brifysgol yn darparu mentoriaid lleoliad gwaith sy'n siarad Cymraeg mewn meysydd astudio penodol. Os nad yw darlithoedd ar gael yn y Gymraeg oherwydd diffyg galw, mae'r Brifysgol yn darparu rhai cyfleoedd i fyfyrwyr drafod eu gwaith yn y Gymraeg mewn meysydd astudio lle mae aelod o staff ar gael sy'n siarad Cymraeg. Mae modd i'r myfyrwyr gyflwyno eu holl aseiniadau yn y Gymraeg, ac mae canllawiau asesu ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg sy'n crynhoi eu hawl mewn perthynas â hyn. Mae Aseswr Anghenion sy'n siarad Cymraeg yn y Tîm Gwasanaethau Cynhwysiad i wneud asesiadau anghenion drwy gyfrwng y Gymraeg.

56 Mae'r Strategaeth Dysgu'n nodi bod 37 o fyfyrwyr wedi cwblhau pum credyd yn y Gymraeg yn 2017-18, a'r targed ar gyfer 2018-19 yw 60 o fyfyrwyr, sy'n codi i 100 ar gyfer y flwyddyn ddilynol. Yn 2017-18, cwblhaodd dau fyfyriwr 40 o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg, a'r targed ar gyfer 2018-19 yw 10. Siaradodd y myfyrwyr yn ffafriol am y cyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i wella eu sgiliau Cymraeg, a dywedwyd bod y rhain yn cael eu hysbysebu'n aml.

57 Felly, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod yr ymrwymiad strategol cynyddol i'r iaith Gymraeg yn hybu ethos y Brifysgol fel diwylliant dwyieithog ac yn gwella'r cyfleoedd sydd ar gael i'r myfyrwyr. Er bod nifer yr aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn isel, mae datblygiadau ar waith sy'n cyfoethogi profiad dysgu myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

2.8 Effeithiolrwydd y dull o wella profiad dysgu'r myfyrwyr

58 Mae dull y Brifysgol o wella profiad dysgu'r myfyrwyr yn effeithiol, yn canolbwyntio ar y myfyrwyr ac yn cael ei hysbysu gan y myfyrwyr. Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Brifysgol wedi datblygu Gweledigaeth a Strategaeth sy'n canolbwyntio'n benodol ar welliant. Lluniwyd pob un o'r 14 strategaeth ategol ar gyfer gwahanol feysydd o'r gwaith i fod yn gyson â'r thema drosfwaol hon ac hefyd i gyfateb â blaenoriaethau economaidd a cymdeithasol Gogledd Cymru a'r rhanbarth lleol sy'n pontio'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Ochr yn ochr â phob strategaeth mae cynlluniau sy'n nodi canlyniadau mesuradwy penodol sy'n cael eu monitro'n rheolaidd gan bwyllgorau penderfynu ffurfiol.

3 Cefnogi gwelliant mewn dysgu ac addysgu

3.1 Y dull strategol o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o wybodaeth er mwyn pennu blaenoriaethau o ran gwella'r dysgu a'r addysgu, a'r dulliau o'u gweithredu a'u gwerthuso

59 Mae gan y Brifysgol ddulliau clir o gynllunio i'r dyfodol ac o ddefnyddio gwybodaeth i bennu blaenoriaethau o ran gwelliant. Gyrrir y dulliau hyn gan Weledigaeth a Strategaeth y Brifysgol a chânt eu cefnogi gan gyfres o strategaethau ategol, sy'n gwthio gwelliannau yn eu blaenau ymhob maes o ddarpariaeth y Brifysgol. Mae gan y strategaethau hyn dargedau clir, mesuradwy ac adnabyddadwy sy'n cael eu monitro'n effeithiol. Mae gan bob strategaeth gynllun gweithredu penodol sy'n cael ei fonitro a'i adolygu gan bwyllgor uwch y Brifysgol. Hefyd, mae'r defnydd a wneir o feincnodau'n cefnogi ymhellach y gwaith o ganfod a mesur cynnydd yn erbyn amcanion strategol allweddol. Canfu'r tîm adolygu bod y strategaethau hyn, er eu bod wedi'u cyflwyno'n ddiweddar, wedi'u sefydlu'n dda ymhob rhan o'r Brifysgol, a bod y staff yn deall y strategaethau'n glir.

60 Mae'r Brifysgol yn disgrifio ei dull o gynllunio i'r dyfodol, gan gynnwys y defnydd a wneir o ddata i bennu blaenoriaethau o ran gwelliant, yn ei Fframwaith Gwella. Mae mecanweithiau eglur i gynnwys y myfyrwyr yn y fframwaith hwn drwy gasglu ac ystyried adborth ganddynt drwy systemau megis 'Tell Glyn'. Mae'r Brifysgol yn gweithredu prosesau ar lefel y cyfadrannau a'r sefydliad i gasglu ac ystyried data meintiol ac ansoddol yn systematig er mwyn canfod meysydd o arfer da neu feysydd sydd angen eu datblygu, sy'n cynnwys craffu ar ddata o werthusiadau o fodiwlau, adroddiadau arholwyr allanol, data am gadwraeth, cynnydd a chyflawniad y myfyrwyr a data am eu cwynion. Mae'r dull yma, sydd wedi'i danategu gan weledigaeth a strategaethau cysylltiedig y Brifysgol, yn defnyddio data mewn modd myfyriol i weithredu, monitro a gwerthuso mentrau gwella.

61 Mae'r Brifysgol yn defnyddio data am gadwraeth ei myfyrwyr yn arbennig o effeithiol i ganfod meysydd sydd angen eu gwella, er bod y tîm adolygu wedi nodi bod llawer o'r gwaith yma'n dal i fynd yn ei flaen a'i bod hi'n rhy fuan i asesu ei effaith yn llawn. Adroddir data am gadwraeth y myfyrwyr i Fwrdd yr Is-Ganghellor bob tair wythnos ac mae'n cael ei fonitro yn unol â'r rhesymau am dynnu allan neu atal dros dro, gyda rhybudd i adrannau unigol gymryd camau gweithredu os yw'r data am gadwraeth eu myfyrwyr yn is na chyfartaledd y Brifysgol gyfan. Mae gan y Gweithgor Cadwraeth gynllun gweithredu clir, sy'n cael ei fonitro a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Dangosodd y staff ddealltwriaeth glir o'r camau sy'n cael eu cymryd i wella cadwraeth, megis y polisi diwygiedig ar fonitro presenoldeb myfyrwyr.

62 Canfu'r tîm adolygu bod dulliau strategol y Brifysgol o sicrhau gwelliant a chynllunio i'r dyfodol wedi'u disgrifio'n glir, bod dealltwriaeth glir ohonynt ar draws y Brifysgol, a'u bod yn cael eu monitro'n effeithiol drwy system pwyllgorau'r Brifysgol. Mae'r defnydd effeithiol a wneir o ddata a dangosyddion perfformiad allweddol i fonitro a gwerthuso'r strategaethau unigol yn effeithiol yn gyrru dulliau'r Brifysgol o sicrhau gwelliant a chynllunio i'r dyfodol, ac mae'n galluogi'r staff i ddathlu llwyddiant ac i ganfod meysydd sydd angen eu gwella ar lefel y rhaglenni. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y gwaith a wneir i lunio a lledaenu cyfres gynhwysfawr o strategaethau cydlynol er mwyn helpu i wella profiad dysgu'r myfyrwyr.

3.2 Y dulliau o reoli newidiadau mewn dulliau o ddysgu ac addysgu

63 Y Strategaeth Dysgu yw'r prif ffactor strategol sy'n gwthio newidiadau yn arferion dysgu ac addysgu'r Brifysgol yn eu blaenau, ac mae'r staff yn ei deall ac yn barod iawn i ymgysylltu â hi. Y Tîm Datblygu Academaidd gyda'i rwydwaith o Gymdeithion yw'r mecanwaith i sicrhau newidiadau, wedi'i ategu gan y broses o wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth sydd wedi'i disgrifio yn Fframwaith Gwella'r Brifysgol. Mae model arweinyddiaeth ddosranedig y Tîm Datblygu Academaidd yn cynnwys tîm craidd sy'n cael ei gefnogi gan rwydwaith o Gymdeithion y Tîm Datblygu Academaidd.

64 Archwiliodd y tîm adolygu effeithiolrwydd y model arweinyddiaeth ddosranedig yma a chanfu ei fod yn llwyddo i wthio newidiadau yn eu blaenau ac i wella'r dysgu a'r addysgu. Roedd y Tîm Datblygu Academaidd wedi gwella cyfleoedd dysgu'r myfyrwyr yn sylweddol. Er enghraifft, mae'r gwaith a wnaethpwyd ar arferion asesu arloesol wedi arwain at nifer o welliannau arwyddocaol, megis y nifer gynyddol o fodiwlau sy'n defnyddio dulliau electronig o gyflwyno asesiadau a rhoi adborth arnynt. Roedd y myfyrwyr a gyfarfu â'r tîm arolygu'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r effaith bositif yma. Mae Cymdeithion yn cymryd y cyfrifoldeb am eu meysydd i'w gwella ac mae ganddynt y grym i wneud newidiadau ystyrlon ar draws y sefydliad. Mae'r penderfyniad i gynnwys staff cymorth proffesiynol ochr yn ochr â staff addysgu fel Cymdeithion wedi cyfrannu'n gadarnhaol at effeithiolrwydd y Tîm Datblygu Academaidd o ran rheoli newidiadau ym meysydd dysgu ac addysgu. Nododd y tîm adolygu bod y newid wrthi'n digwydd mewn rhai o feysydd gwaith y Tîm Datblygu Academaidd, megis y gwaith ar 'dywys gan gymheiriaid' a'r gwaith arfaethedig i ddatblygu priodoleddau graddedigion, felly nid oedd eto wedi cynhyrchu effaith fesuradwy ar brofiad addysgol y myfyrwyr.

65 Mae sesiynau dysgu amser cinio a'r gynhadledd staff ddau ddiwrnod flynyddol yn fecanweithiau ychwanegol i weithredu a rheoli newidiadau mewn dysgu ac addysgu ar draws y Brifysgol. Roedd y staff y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n siarad yn gadarnhaol am y gweithgareddau yma gan nodi bod y cyfraddau presenoldeb mewn digwyddiadau o'r fath wedi bod yn uchel ers cyflwyno'r Strategaeth Dysgu. Mae'r tîm adolygu o'r farn, felly, bod gan y Brifysgol strategaeth glir ar gyfer rheoli newidiadau mewn dysgu ac addysgu, a bod y dull yma wedi cael effaith bositif amlwg ar brofiad addysgol y myfyrwyr. Ar yr un pryd, maent yn cydnabod ei bod hi'n rhy fuan i asesu'n llawn pa mor effeithiol yw'r ystod lawn o waith y Tîm Datblygu Academaidd a'r Cymdeithion, yr oedd rhywfaint ohono'n dal heb ei gwblhau.

3.3 Y dulliau o gefnogi arloesi, a chanfod a rhannu arferion da

66 Mae'r Brifysgol yn gweithredu mecanweithiau eglur i gefnogi arloesi a hwyluso rhannu arferion da ar lefelau'r rhaglenni, y cyfadrannau a'r sefydliad. Mae'r Strategaeth Dysgu'n tanategu mentrau'r Brifysgol i gydnabod, cefnogi a gwobrwyo arferion addysgu da a'u lledaenu drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r broses o ailstrwythuro'r Brifysgol o bedair ysgol i ddwy gyfadran wedi helpu i hwyluso arloesi drwy adlewyrchu rolau allweddol ym maes sicrhau a gwella ansawdd rhwng y cyfadrannau, a chynnal cyfathrebiad rheolaidd rhyngddynt. Mae'r staff yn cydnabod bod hyn yn creu cyfleoedd i ganfod a rhannu arferion da drwy'r sefydliad cyfan yn fwy cyson ac yn cefnogi ymgysylltiad rhwng disgyblaethau.

67 Mae prosesau allweddol ar gyfer sicrhau ansawdd, megis adroddiadau monitro blynyddol, yn canfod arferion da drwy ddefnyddio data'n effeithiol, megis sgorau'r ACF, sy'n cael eu trafod ar lefelau'r rhaglenni a'r cyfadrannau wedyn. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd yn ystyried trosolwg o adroddiadau'r arholwyr allanol. Mae Polisi Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid y Brifysgol yn cefnogi staff yn eu datblygiad proffesiynol ac yn cydnabod arferion addysgu da'n llwyddiannus. Roedd y staff a gyfarfu â'r tîm arolygu'n siarad mewn ffordd gadarnhaol am y ffordd y mae sesiynau dysgu amser cinio'n darparu fforwm i'r staff addysgu a'r staff cymorth proffesiynol rannu arferion arloesol.

68 Mae'r ystorfa o arferion da ar y rhith-amgylchedd dysgu a'r arfer o recordio'r sesiynau dysgu amser cinio'n helpu i ledaenu arferion da drwy'r sefydliad cyfan, ac mae'r ystorfa a'r recordiadau ar gael hefyd i bartneriaid cydweithredol y Brifysgol. Mae gwobrau dwyflynyddol i staff yn darparu cyfle arall i gydnabod a dathlu aelodau o'r staff sy'n defnyddio arferion addysgu arloesol. Cydnabu'r staff bod y fenter Cefnogi Dull Cyfannol o Wella Rhaglenni (ei hacronym Saesneg yw 'SHAPE') yn arbennig o ddefnyddiol i gefnogi'r broses o gynllunio a datblygu rhaglenni newydd ac i sicrhau bod egwyddorion y Brifysgol ar gyfer cynllunio cwricwlwm yn cael eu hymwreiddio'n systematig ymhob rhan o'i darpariaeth. Mae'r Tîm Datblygu Academaidd yn fecanwaith arall i sicrhau bod arferion arloesol mewn ystod o feysydd yn cael eu rhannu a'u hannog yn llwyddiannus, er enghraifft y gwaith a wnaethpwyd yn ddiweddar mewn perthynas ag arferion asesu.

69 Mae'r tîm adolygu o'r farn bod y Brifysgol yn gweithredu prosesau effeithiol i alluogi rhannu arferion da drwy'r sefydliad cyfan, ac mae'n nodi bod y Strategaeth Dysgu wedi bod yn allweddol i wthio mentrau yn eu blaenau, er enghraifft y sesiynau dysgu amser cinio sy'n cefnogi a chydnabod arferion o'r fath.

3.4 Cefnogi a datblygu staff ac ymgysylltu â nhw

70 Mae'r Brifysgol yn gweithredu prosesau effeithiol i gefnogi datblygiad proffesiynol ei staff i gyd ac i'w hannog i gymryd rhan ynddo. Mae'r prosesau hyn wedi'u tanategu gan ei Strategaeth Bobl a'i Strategaeth Ymgysylltiad Staff. Mae'r Brifysgol yn cynnal Arolwg Ymgysylltiad Staff bob dwy flynedd, ac mae canlyniadau'r arolwg mwyaf diweddar yn dangos cynnydd cryf y Brifysgol o ran ymdrin â meysydd sydd angen eu datblygu.

71 Mae Adolygiadau Datblygiad Personol blynyddol yn helpu staff i fyfyrio ar eu perfformiad a'u datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Mae rhaglen ffurfiol o ddatblygiad proffesiynol ar gael i'r staff, sy'n cynnwys pecynnau wedi'u teilwra i uwch reolwyr, arweinwyr rhaglen ac aelodau newydd o'r staff. Mae'r rhaglen yn eu cefnogi'n effeithiol yn eu rolau. Cadarnhaodd y staff i'r tîm adolygu eu bod yn derbyn cefnogaeth datblygiad proffesiynol gadarn sy'n hwyluso eu cynnydd, a bod y gefnogaeth yma wedi'i halinio gydag anghenion dysgu'r corff myfyrwyr. Er enghraifft, nododd nifer o aelodau'r staff esiamplau lle mae cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gael iddynt i'w galluogi i roi gwell cefnogaeth i fyfyrwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r staff hefyd yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth mewn meysydd sydd wedi'u cysylltu â themâu gwelliant y Tîm Datblygu Academaidd, megis modiwl Hanfodion y RhAD sy'n hwyluso ymwreiddio arferion da ar gyfer defnyddio'r RhAD ymhob rhan o'r sefydliad.

72 Mae mentrau, megis y gronfa 'DELTA' (ystyr yr acronym Saesneg yw datblygu arferion dysgu, addysgu ac asesu rhagorol), y gynhadledd staff a'r 'sesiynau dysgu amser cinio', yn meithrin ac yn annog arferion arloesol ymysg y staff yn effeithiol, ac maent yn cefnogi datblygiad arferion addysgu'r staff. Cadarnhaodd y staff eu bod yn cael amser rhydd i wneud gwaith ymchwil a manteisio ar gyfleoedd cyhoeddi. Mae cyfranogaeth y staff mewn cyfleoedd DPP yn cael ei holrhain a'i chofnodi'n effeithiol i hysbysu'r broses o adolygu datblygiad personol. Mae'r Brifysgol yn cefnogi ei staff yn weithredol wrth geisio cydnabyddiaeth broffesiynol, ac mae gan y Strategaeth Dysgu darged clir i sicrhau bod 90% o'r staff yn cael cydnabyddiaeth broffesiynol erbyn 2020. Mae hefyd yn cefnogi ei staff i ennill graddau doethuriaeth a datblygu eu sgiliau ymchwil, ac mae Cynlluniau Ymchwil Personol wrthi'n cael eu gweithredu drwy'r sefydliad cyfan. Mae'r tîm adolygu o'r farn, felly, bod y staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i gyfranogi yn eu datblygiad proffesiynol drwy ystod eang o fecanweithiau.

3.5 Effeithiolrwydd y dulliau o weithredu strategaethau sefydliadol a gwella'r dysgu a'r addysgu

73 Mae'r Brifysgol wedi gweithredu cyfres gadarn a chydlynol o strategaethau i hwyluso'r gwaith o wella'r dysgu a'r addysgu, ac mae'r staff yn deall y strategaethau hyn yn dda, ynghyd â'r prosesau i'w gweithredu, ac mae'r staff yn cymryd rhan weithredol ynddynt.
Mae tystiolaeth sy'n dangos effaith bositif ar brofiadau'r staff a'r myfyrwyr fel ei gilydd, megis y gwaith a wnaethpwyd ar arferion asesu sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y nifer y modiwlau sy'n defnyddio dulliau e-asesu. Mae'r dulliau sefydliadol hyn o sicrhau gwelliant yn cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol gan y pwyllgorau a'r unigolion sy'n gyfrifol am lwyddiant y Strategaeth Dysgu. Felly, mae'r Strategaeth Dysgu'n gweithredu fel ffactor strategol glir sy'n gwthio newidiadau yn eu blaenau o fewn y Brifysgol. Fodd bynnag, nododd y tîm ei bod hi'n rhy fuan i asesu effaith y dulliau yma'n llawn, er enghraifft mewn perthynas â chadwraeth, ac roedd y staff a gyfarfu â'r tîm arolygu'n cydnabod hynny. Ar y cyfan, mae'r tîm adolygu'n hyderus y bydd dulliau'r Brifysgol o sicrhau gwelliant sydd wedi'u disgrifio yn ei Strategaeth Dysgu a'r Fframwaith Gwella'n parhau i weithio'n effeithiol.

4 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd

4.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

74 Mae dulliau'r Brifysgol o reoli ansawdd wedi'u strwythuro o amgylch ei Rheoliadau Academaidd a phwyllgorau ei Bwrdd Academaidd. Mae'r fframwaith yn gadarn ac yn dangos llinellau pendant o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, ynghyd â phrosesau cynhwysfawr ar gyfer rheoli ansawdd. Yn briodol, adolygir y Rheoliadau Academaidd bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn parhau i alinio gyda strategaethau'r Brifysgol. Rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Academaidd. Mae nifer o gyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan yn y gwaith o reoli ansawdd, fel y maent wedi'u disgrifio yn y Fframwaith Gwella a'r Polisi Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd, a luniwyd gan y Brifysgol ar y cyd gydag Undeb

y Myfyrwyr. Mae'r ffyrdd y gall myfyrwyr gyfrannu at y gwaith o reoli ansawdd yn cynnwys mecanweithiau adborth allanol megis yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (ACF), yn ogystal â mecanweithiau mewnol sy'n cynnwys Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau, bod yn gynrychiolydd cyfadran, neu fod yn gynrychiolydd rhaglen sy'n cymryd rhan yn Fforymau Llais y Myfyrwyr dwyflynyddol. Yn unol â'r ffocws ar 'fyfyrwyr fel partneriaid' sy'n cael ei datblygu gan y Brifysgol, mae'r myfyrwyr wedi'u cynrychioli ar bob un o'r pwyllgorau allweddol, gan gynnwys Bwrdd yr Is-Ganghellor, y Bwrdd Llywodraethwyr, a'r Bwrdd Academaidd a'i is-bwyllgorau. Mae mentrau arloesol Undeb y Myfyrwyr megis 'Tell Glyn' yn darparu cyfleoedd effeithiol pellach i'r myfyrwyr roi adborth. Mae'r ffyrdd y defnyddir yr adborth yma i wella'r dysgu a'r addysgu'n cael eu trafod yn Adran 2.

75 Mae'r Bwrdd Academaidd yn gyfrifol am safonau ac ansawdd academaidd, ac mae ei aelodaeth yn weddol eang, gan gynnwys staff academaidd a staff proffesiynol fel ei gilydd o bob rhan o'r sefydliad, ynghyd â dau gynrychiolydd myfyrwyr. Mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd yn cefnogi gwaith y Bwrdd ac mae'n goruchwylio ac yn cynnal y fframwaith sicrhau ansawdd. Mae dyfyniadau o gofnodion ei gyfarfodydd yn dangos bod goruchwyliaeth y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd yn agos ac yn briodol mewn perthynas â'r cyfrifoldeb hwn. Mae Byrddau Cyfadran yn gyfrifol am ansawdd a safonau academaidd y rhaglenni o fewn y cyfadrannau, ac maent yn cynnwys cynrychiolwyr israddedig ac ôl-raddedig, fel sy'n briodol. Sefydlwyd gweithgorau arbenigol i ganolbwyntio ar feysydd allweddol yn ymwneud â rheoli ansawdd a safonau, megis y Gweithgor ar Reoliadau Graddau. Mae'r Grŵp Adolygu Asesiadau'n cynnwys myfyrwyr, aelodau o'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd ac aelodau o'r Rhwydwaith o Gymdeithion y Tîm Datblygu Academaidd. Mae'r Grŵp Adolygu Asesiadau wedi datblygu, er enghraifft, gyfarwyddyd marcio generig y gellir ei addasu i gyfateb â gwahanol raglenni ac asesiadau. Dywedodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu fod gwelliannau yn y prosesau asesu, gan gynnwys y cyfarwyddyd marcio generig, wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

76 Nodwedd bwysig o ddulliau'r Brifysgol o reoli ansawdd yw'r broses Adolygiad Monitro Blynyddol sydd wedi'i hamlinellu yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynllun gweithredu ar gyfer gwella. Mae'r Byrddau Cyfadran yn trafod yr adroddiadau monitro blynyddol a ffyrdd o rannu'r arferion da a welwyd. Bob blwyddyn, cyflwynir adroddiad trosolwg i Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd, sy'n cynnwys adroddiadau monitro blynyddol partneriaid cydweithredol y Brifysgol. Mae camau gweithredu'n cael eu cymryd mewn ymateb i argymhellion lle bo raid. Mae'r myfyrwyr yn cyfrannu at y broses Adolygiad Monitro Blynyddol drwy gwblhau'r Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau. Hefyd, cynhelir proses adolygu cyfnodol bob pum mlynedd, ac mae'r dystiolaeth yn dangos bod y myfyrwyr yn allweddol i'r broses hon drwy eu cyfranogaeth mewn trafodaethau manwl gyda'r panel am ansawdd eu profiad dysgu.

4.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

77 Mae gan y Brifysgol reoliadau cynhwysfawr a phrosesau trwyadl ar gyfer asesu cyrhaeddiad y myfyrwyr a dyfarnu cymwysterau academaidd. Y prif fecanweithiau ar gyfer gosod a chynnal safonau academaidd yw'r prosesau o gymeradwyo ac ail-ddilysu rhaglenni, ynghyd â'r defnydd a wneir o arholwyr allanol i gadarnhau cyrhaeddiad y myfyrwyr a chysondeb gyda phwyntiau cyfeirio allanol. Mae'r defnydd a wneir o brif arholwyr allanol yn ffordd ddefnyddiol o sicrhau cysondeb ar draws gwahanol feysydd astudio. Mae'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd yn ystyried adroddiad trosolwg manwl sy'n dadansoddi adroddiadau arholwyr allanol, ac mae hwn yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella yn y dyfodol. Hefyd, mae'r Bwrdd Academaidd yn trafod dadansoddiad cymharol o'r graddau a gyflawnwyd, a dosberthir gwybodaeth debyg i'r cyfadrannau. Mae'r wybodaeth hon yn hysbysu'r datblygiadau polisi a strategaethau ar gyfer y dyfodol ac yn helpu i sicrhau profiad cyfartal i'r myfyrwyr i gyd.

78 Cafodd proses y Brifysgol o gymeradwyo rhaglenni ei hadolygu a'i gwella'n ddiweddar. Mae'r gwelliannau'n cynnwys cynyddu cyfranogaeth y myfyrwyr yn y broses ddilysu. Roedd 67% o'r panelau dilysu'n cynnwys cynrychiolydd myfyrwyr hyfforddedig yn 2017-18. Mae strategaeth glir yn ei lle ar gyfer cynyddu'r nifer hwn ymhellach. Mae pob panel dilysu'n cynnwys cynghorydd allanol ar gyfer y maes astudio perthnasol. Yn ystod yr ymweliad adolygu, bu staff academaidd yn trafod amrediad eang o esiamplau o drafodaethau perthnasol gyda chyflogwyr mewn perthynas â newidiadau arfaethedig i raglenni. Er bod dilysiadau gan y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd ar gyfer rhaglenni'n ddilys am bum mlynedd fel arfer, mae angen i newidiadau bychain yng nghynnwys y rhaglenni gael eu cymeradwyo gan yr Is-bwyllgor Rhaglenni Academaidd. Mae'r broses yn gofyn am dystiolaeth i ddangos bod ymgynghoriad wedi digwydd ynghylch y newidiadau gyda'r myfyrwyr cyfredol a darpar fyfyrwyr.

79 Yn 2017, sefydlwyd Panel Craffu ar Ansawdd a Safonau gan y Bwrdd Llywodraethwyr sy'n cynnwys trawstoriad o'r Llywodraethwyr, rhai sydd â chefndir ym maes addysg uwch a rhai eraill sydd heb unrhyw gefndir o'r fath. Trwy gydol y flwyddyn, mae'r panel yn craffu ar ddogfennau gan y Bwrdd Academaidd sy'n ymwneud ag ansawdd a safonau. Mae hyn yn cynnwys rhoi Adroddiad Trosolwg Blynyddol ar Safonau i'r Panel a'r Bwrdd Llywodraethwyr ar ddiwedd bob blwyddyn academaidd, gyda diweddariadau ynghylch y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n achosi pryder. Ar sail y dystiolaeth a dderbynnir, mae'r panel yn cyflwyno adroddiad manwl i'r Bwrdd Llywodraethwyr, ynghyd ag argymhelliad i gyflwyno'r datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol i CCAUC. Mae'n ymddangos bod y broses ddau gam hon i helpu i asesu tystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r datganiadau blynyddol yn broses drwyadl ac effeithiol.

4.3 Y defnydd a wneir o bwyntiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

80 Mae'r rheoliadau, y polisïau a'r prosesau wedi'u mapio yn erbyn Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU ac, yn eu tro, yn erbyn y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd, fel y gwelwyd mewn ymarfer mapio a wnaed gan y Brifysgol. Mae aelodau panelau dilysu'n derbyn rhestr wirio ddefnyddiol ac mae gofyn iddynt roi sylwadau i ddweud a yw'r materion dan sylw'n "parhau i gyfateb â phwyntiau cyfeirio allanol perthnasol, gan gynnwys y fframwaith cymwysterau ac unrhyw ofynion gan gyrff proffesiynol". Mae'r Brifysgol yn cadw cofrestr o gyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio, ac mae tystiolaeth o brosesau dilysu ac achredu'n dangos ei bod yn cydweithio'n egnïol ac yn gadarnhaol gyda chyrff o'r fath, yn unol â strategaeth y Brifysgol ar gyfer cyflogadwyedd. Mae gwaith y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd o oruchwylio prosesau sy'n ymwneud ag ansawdd wedi'i gefnogi drwy gynnwys cynghorydd ansawdd allanol i roi cyngor a chymorth diduedd.

81 Mae'r Brifysgol yn rhagweithiol yn y ffordd y mae hi'n sicrhau bod ei holl staff yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser mewn perthynas â gofynion rheoleiddiol o ran safonau ac ansawdd. Er enghraifft, mae'n darparu hyfforddiant sy'n berthnasol i'r fframweithiau ansawdd academaidd, gan gynnwys y *Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch* a *Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru*, ar yr amser priodol, megis ar ddechrau'r flwyddyn academaidd neu yn ystod y cyfnod cynefino, ac mae'n dosbarthu Datganiadau Meincnodi Pwnc i bob parti perthnasol, unwaith y maent wedi'u hadolygu. Yn yr un modd, mae'r Brifysgol yn annog cyfranogaeth yn weithredol mewn gweithgareddau rhwydweithio allanol ym maes ansawdd. Er enghraifft, mae cyfranogaeth ym mhrosiect 'Safonau Graddau' Advance HE wedi galluogi i nifer o aelodau staff y Brifysgol gymryd rhan yn y gwaith o ddarparu ei Rhaglen Datblygiad Arholwyr Allanol. Hefyd, cymerodd y Brifysgol ran ym mhrosiect 'Deall Algorithmau Graddau' Prifysgolion y DU.

4.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

82 Yn ei Hadolygiad Sefydliadol yn 2013, derbyniodd y Brifysgol bedair beirniadaeth ar wahân 'yn cyflawni disgwyliadau'r DU' gan QAA am y meysydd canlynol: y safonau academaidd trothwy, ansawdd y cyfleoedd dysgu, yr wybodaeth am y cyfleoedd dysgu, a'r gwelliant yn y cyfleoedd dysgu. Cafodd ymateb y Brifysgol i'r adolygiad hwn ei werthuso yn rhan o Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr, a wnaed gan QAA yn 2016.

83 Canfu'r adolygiad dair nodwedd o arfer da, ac mae'r Brifysgol wedi cymryd camau i'w datblygu ymhellach. Mae wedi datblygu ei darpariaeth e-ddysgu ymhellach, wedi cynyddu ei gwasanaethau ar gyfer asesu anabledd a chefnogi'r anabl o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl, ac wedi ailddatblygu ei Dangosfwrdd Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan ei integreiddio i'r prosesau o fonitro ac adolygu rhaglenni'n flynyddol.

84 Gwerthusodd QAA ymateb y Brifysgol i bedwar argymhelliad yn ei hadolygiad QAA yn 2013 mewn Ymgysylltiad Canol Proses sy'n Canolbwyntio ar y Myfyriwr ym mis Mehefin 2016. Roedd y Brifysgol wedi adolygu ei rheoliadau ar gyfer arholi allanol i nodi'n benodol y dylid samplu sgriptiau o bob un o'r safleoedd lle mae rhaglen benodol yn cael ei darparu. Anogir hyn yn y templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol, ac mae'r Gofrestrfa'n gwirio bod y gwaith samplu wedi'i gyflawni. Ymatebodd y Brifysgol i argymhelliad i wella'r adnoddau ym Mhrifysgol Glyndŵr Llundain drwy ei symud i safle gwahanol a gweithredu strategaeth adnoddau a staffio. Mae'r safle darparu hwn wedi cau ers hynny, unwaith yr oedd y myfyrwyr yno wedi cwblhau eu hastudiaethau. Mewn perthynas ag argymhelliad yn ymwneud â chanfod ac ymdrin â phroblemau gydag adnoddau dysgu, mae'r Brifysgol wedi cryfhau ei Ffurflen Gynnig Rhaglen Gychwynnol fel ei bod yn canfod gwybodaeth am ofynion o ran adnoddau. Yn ogystal, mae'r gweithdrefnau monitro blynyddol yn gofyn i Ddeoniaid y Cyfadrannau adolygu unrhyw broblemau gydag adnoddau ac mae'r gweithdrefnau'n rhoi pwerau gwario datganoledig iddynt. Yn olaf, mae'r Brifysgol wedi adolygu ei Llawlyfr Ansawdd Academaidd i nodi y dylai aseswyr allanol fod yn aelodau o banelau dilysu, ac mae'r broses o samplu adroddiadau dilysu wedi cadarnhau bod hyn yn digwydd.

85 Cwblhaodd y Brifysgol ddau gam gweithredu a gadarnhawyd, a oedd yn ymwneud yn benodol â rhannu adroddiadau arholwyr allanol gyda'r myfyrwyr, sy'n digwydd erbyn hyn yn Fforymau Llais y Myfyrwyr, ac a oedd yn ymwneud â chynrychiolaeth y myfyrwyr ar ei hen gampws yn Llundain.

4.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

86 Mae'r Swyddfa Gynllunio Strategol, gyda'i thîm sy'n benodol gyfrifol am ddata'r myfyrwyr, ansawdd a chynllunio, yn flaenllaw yn y gwaith o gasglu a dadansoddi data. Clywodd y tîm adolygu sut y mae'r Swyddfa Gynllunio Strategol yn ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ledled y Brifysgol i ddatblygu'r defnydd a wneir o ddata mewn ystod o ffyrdd er mwyn hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso a gwella perfformiad.

87 Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos y defnydd eang a wneir o ddata yn ystyriaethau'r pwyllgorau, a'r camau gweithredu a gymerir mewn perthynas â recriwtio a chadw myfyrwyr, dadansoddi eu harolygon ac ymdrin â'u chwynion. Hysbysir y Bwrdd Llywodraethwyr fel y bo'n briodol drwy adroddiad diwedd blwyddyn am y cynnydd a gafwyd yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol sy'n cynnwys targedau blynyddol sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth academaidd a phrofiad y myfyrwyr. Mae dealltwriaeth y staff o ddata'n cael ei wella, lle bo'n ofynnol, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

88 Mae pwysigrwydd data ar lefel y rhaglenni'n amlwg yn yr adroddiadau monitro blynyddol sy'n ystyried perfformiad y rhaglenni drwy eu graddio gan ddefnyddio system oleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd), a dadansoddiad ategol. Mae hwn yn fecanwaith effeithiol ac effeithlon i weld unrhyw wyro oddi wrth feincnodau sefydliadol. Mae cynlluniau gweithredu seiliedig ar ddata'n canolbwyntio ar feysydd allweddol megis recriwtio a chadw myfyrwyr, canlyniadau'r ACF a dosbarthiadau graddau. Mae'r broses hon yn berthnasol i raglenni'r Brifysgol a rhaglenni ei phartneriaid cydweithredol er mwyn sicrhau canlyniadau cyson a chymaradwy. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol, ynghyd â'r ymatebion a gafwyd gan dimau rhaglenni a Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau, yn rhoi rhagor o enghreifftiau o'r defnydd a wneir o ddata wrth wneud gwaith monitro academaidd ac wrth ystyried datblygiadau academaidd. Mae gan y Strategaeth Dysgu a'r cynllun gweithredu dilynol dargedau clir sydd wedi'u hysbysu gan ddata, megis y cynnydd yn y nifer o ymatebion i'r Gwerthusiadau Myfyrwyr o Fodiwlau a gafwyd, o gyfradd siomedig o 15% yn 2018 i 80% yn 2019. Clywodd y tîm adolygu bod yr arwyddion cynnar, ar sail tystiolaeth o'r semester cyntaf, yn awgrymu y bydd y Brifysgol yn cyflawni'r targed hwn.

89 Yn bwysig iawn, mae'r Brifysgol yn casglu ac yn gwerthuso data meintiol ac ansoddol fel ei gilydd, megis drwy Fforymau Llais y Myfyrwyr a 'Tell Glyn'. Trafodir adroddiad trosolwg o'r data hwn mewn pwyllgorau allweddol ac mae'r Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr yn bwrw ymlaen â'r camau gweithredu fel y bo'n briodol. Dywedwyd wrth y tîm adolygu fod data ansoddol yn arbennig o bwysig i staff cymorth proffesiynol wrth ystyried y ffordd orau o ateb anghenion myfyrwyr penodol.

4.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella'r dysgu a'r addysgu

90 Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau effeithiol i sicrhau bod ansawdd y dysgu a'r addysgu'n cael ei wella. Mae ganddi ymrwymiad amlwg i wella ansawdd yn barhaus drwy broses gylchol sydd wedi'i hamlinellu yn ei Fframwaith Gwella. Er enghraifft, mae'r broses flynyddol o adolygu'r Fframwaith Rheoleiddio wedi rhoi mwy o ffocws ar ddatrys cwynion yn gynnar, ac mae sefydlu Fforwm Dysgu o Gwynion yn gyfle gwych i rannu arferion da, myfyrio ac adolygu ymhellach. Mae'r prosesau dilysu, monitro blynyddol ac adolygu cyfnodol yn gadarn ac yn fanwl. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod creu'r broses 'SHAPE' i drafod a chynnig cyngor am gynigion i ddilysu, yn cyfoethogi'r broses ddilysu. Hefyd, clywodd y tîm adolygu gan staff academaidd sut y mae'r camau diweddar i sefydlu'r fenter 'CREATE' (ystyr yr acronym Saesneg yw cydweithio wrth adolygu a gwella asesiadau a rhagoriaeth addysgu) yn effeithiol o ran cefnogi'r broses ehangach o gynllunio'r gwaith dilysu. Mae'r Polisi Arsylwi Addysgu gan Gymheiriaid diwygiedig, a gynorthwyir yn rhannol gan y strwythur rheoli newydd, yn annog gweithio ar draws y cyfadrannau, gan felly ehangu cyfleoedd i wella a datblygu.

91 Mae'r cyfleoedd cynyddol ar gyfer deialog proffesiynol rhwng disgyblaethau'n gwella'r dulliau sicrhau ansawdd, ac mae hyn yn wir hefyd am y ffocws sy'n datblygu ar 'fyfyrwyr fel partneriaid'. Mae'r Polisi Cyfranogaeth Myfyrwyr mewn Prosesau Sicrhau a Gwella Ansawdd yn dangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i'r myfyrwyr roi adborth am eu profiadau. Fodd bynnag, mae'r gyfranogaeth ymysg myfyrwyr ôl-raddedig yn ymddangos yn siomedig ar hyn o bryd, fel y trafodwyd ym mharagraff 45.

92 Mae'r ddogfen 'Y Fframwaith Gwella ar Waith' yn cynnwys targedau gyda ffocws penodol sydd wedi'u seilio ar gyfresi data allweddol. Drwy ganolbwyntio fwy ar ffynonellau data, mae gwaith y Bwrdd Academaidd a'i bwyllgorau i reoli ansawdd, ynghyd â'i ryngweithio gyda'r Bwrdd Llywodraethwyr, yn dod yn fwy effeithiol. Mae sefydlu Grŵp Gweithredu i Gadw Myfyrwyr misol, ar gefndir yr ystadegau am nifer y myfyrwyr sydd wedi parhau â'u hastudiaethau yn 2017-18, yr oeddent yn is na'r meincnod, a'r gostyngiad bychan yn yr ystadegau cadwraeth ar gyfer yr un flwyddyn academaidd, yn enghreifftiau o weithredoedd rheoli o'r fath. Thema gwelliant y Brifysgol ar gyfer 2017-18 oedd 'Arferion Asesu ac Adborth', ac mae dadansoddiad

o ddata'r ACF ar gyfer 2018 yn awgrymu bod effaith bositif y gwaith a wnaethpwyd yn y maes yma wedi rhoi'r Brifysgol yn uwch na'i meincnod ei hun a chyfartaledd y sector.

4.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd

93 Mae adran 4.2 yn crynhoi'r rheoliadau a'r gweithdrefnau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i osod a chynnal safonau ei dyfarniadau. Mae allanoldeb yn nodwedd bwysig o'r dull cynhwysfawr, ac mae cynrychiolaeth o staff academaidd a staff proffesiynol fel ei gilydd yn agwedd bwysig ac effeithiol o'r broses ddilysu ac adolygu cyfnodol. Mae adroddiadau'r arholwyr allanol yn cadarnhau bod y safonau academaidd yn briodol, ac mae'r ystyriaeth a roddir i ofynion penodol y cyrff proffesiynol, statudol a rheoleiddio'n dangos hefyd bod y Brifysgol yn sicrhau'n effeithiol bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal. Mae'r graddau a gyflawnwyd wedi gwella ers 2014-15, gan ddod â'r Brifysgol yn fwy cyfatebol â meincnod y sector, er bod bwlch o 11% yn parhau mewn cyrhaeddiad yn 2016-17 rhwng y myfyrwyr hynny oedd yn derbyn Lwfans Myfyrwyr Anabl a'r rhai nad oeddent yn ei dderbyn. O ganlyniad, roedd mabwysiadu arferion asesu mwy hygyrch a chynhwysol yn elfen allweddol o thema gwelliant 'Arferion Asesu ac Adborth' y Brifysgol yn ystod 2017-18. Mae'r Strategaeth Dysgu'n canolbwyntio'n briodol ar alluogi profiad cyfartal lle gall y myfyrwyr i gyd gyflawni eu potensial. Hefyd, mae'r Tîm Bywyd Myfyrwyr a Bywyd ar y Campws yn darparu amrediad eang o wasanaethau i gefnogi profiad dysgu'r myfyrwyr i gyd, yn cynnwys cymorth sgiliau astudio ar sail un-i-un.

94 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y ffordd y rheolir y safonau academaidd, y mae'r Brifysgol yn eu gosod a'u cynnal ar gyfer cyrhaeddiad myfyrwyr, yn gadarn.

4.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

95 Mae adrannau 4.1 a 4.5 yn crynhoi'r dulliau y mae'r Brifysgol yn eu defnyddio i fonitro ac adolygu ansawdd ei darpariaeth ac maent yn rhoi enghreifftiau o'r defnydd effeithiol a wneir o ddata ar lefel strategol a gweithredol. Mae pob un o'r dangosyddion perfformiad allweddol a gyflwynwyd i'r Bwrdd Llywodraethwyr wedi'u halinio'n briodol â strategaeth ategol berthnasol a gyda phwyllgor monitro. Mae targedau mesuradwy'n hysbysu proses hunanwerthuso'r Brifysgol ac yn gyrru gwelliant. Mae hyn yr un mor berthnasol i'r cynlluniau gweithredu strategol manwl gyda'u fframweithiau adrodd clir, ag ydyw, er enghraifft, i'r adroddiadau monitro blynyddol. Cadarnhaodd y staff wrth y tîm adolygu eu bod yn defnyddio data, gan gynnwys data o'r broses Adolygiad Monitro Blynyddol, i sicrhau bod eu rhaglenni a'u briffiau aseiniad yn parhau'n berthnasol ac yn gyfredol. Hefyd, mae'r cynlluniau gweithredu a luniwyd gan y gwasanaethau proffesiynol a'r cyfadrannau academaidd mewn ymateb i'r ACF yn dangos bod targedau wedi'u gosod ar sail data manwl.

96 Defnyddir data hefyd mewn dull cadarnhaol i hysbysu trafodaethau am newidiadau i'r Fframwaith Rheoleiddio, y polisïau a'r prosesau er budd y corff myfyrwyr, er enghraifft mewn perthynas â'r trefnau cwyno neu wrth newid y trothwy ar gyfer penderfynu a ddylai myfyrwyr ailadrodd blynyddoedd o 60 o gredydau i 80 o gredydau. Mae cyfleoedd ar gael i'r myfyrwyr hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau ar bob lefel, a chadarnhaodd y myfyrwyr wrth y tîm adolygu bod newidiadau'n cael eu gwneud mewn ymateb i'w hadborth.

97 Daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn gwneud defnydd da o ddata meintiol ac ansoddol fel ei gilydd i helpu prosesau hunanwerthuso ac i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r tîm yn cydnabod bod nod y Brifysgol o ymgysylltu fwy â phrosiect 'Dadansoddi' ac offeryn 'darganfod' Jisc yn ffordd gadarnhaol o gryfhau rôl y gwaith o ddadansoddi data ymhellach er budd y garfan myfyrwyr.

5 Darpariaeth gydweithredol

5.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

98 Mae'r Brifysgol wedi datblygu Gweledigaeth newydd lle mae'n ei gweld ei hun yn chwaraewr arwyddocaol yng Ngogledd Cymru ac ar draws y ffin i mewn i ogledd orllewin Lloegr. I ategu'r uchelgais yma, mae'r Is-Ganghellor yn aelod o Fwrdd Bargen Twf y Gogledd lle mae'r Brifysgol yn chwarae rôl arwyddocaol yn adfywiad y rhanbarth.

99 I gefnogi'r busnesau yn yr ardal leol ac i hybu cyflogadwyedd y myfyrwyr, mae academyddion wedi cydweithio'n effeithiol â chyflogwyr lleol ar amrywiaeth o fentrau ar draws ystod o feysydd astudio. Mae'r gweithgareddau yma'n cyfateb â Strategaeth Ymgysylltu Dinesig y Brifysgol. Mae'r myfyrwyr sydd wedi cymryd rhan yn y mentrau yma wedi elwa o'r hyn y maent wedi'i ddysgu sydd, i rai, wedi arwain at nifer o ganlyniadau arwyddocaol, megis sefydlu eu busnesau eu hunain.

100 Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n strategol ac yn sylweddol mewn datblygu partneriaethau cydweithredol. Mae wedi ehangu ei strwythur pwyllgorau drwy gyflwyno pwyllgorau penodol i bob partner a thrwy gynyddu'r adnoddau dynol sy'n gweithio'n benodol ar oruchwylio partneriaethau. Mae'r camau gweithredu yma'n ddulliau cadarn, yn unigol ac ar y cyd, o leihau risgiau.

101 Yn ogystal â'r Swyddfa Partneriaethau, mae'r Brifysgol yn goruchwylio ei darpariaeth gydweithredol drwy ei strwythur pwyllgorau. Cyflwynwyd Pwyllgor Partneriaethau Academaidd i gefnogi'r Bwrdd Academaidd ac i roi ffocws ar ei weithgareddau cydweithredol. Mae'r Pwyllgor hwn yn is-bwyllgor i'r Bwrdd Academaidd ac mae'n derbyn adroddiadau gan y prif grŵp gweithredu partneriaethau, sef y Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Academaidd. Y rhwydwaith o Gysylltiadau Academaidd yw'r prif fecanwaith ar gyfer cyfathrebu rhwng y Brifysgol a'r darparwyr addysg uwch partner. Mae'r cyfathrebiad hwn yn ymwneud yn ddieithriad â materion sy'n benodol berthnasol i weithrediad cyrsiau ond mae hefyd yn cynnwys hysbysiadau am newidiadau rheoliadol a wneir sy'n effeithio ar waith y Brifysgol. O safbwynt y sefydliadau partner, mae'r mecanwaith yma'n effeithiol, ac maent yn ei ystyried yn bositif.

102 Mae'r darparwyr partner wedi'u cynrychioli ar y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd gan Gysylltiadau Academaidd y Brifysgol. Mae cyfarfod y Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Academaidd yn ymwneud â rheolaeth weithredol holl bartneriaethau'r Brifysgol ac mae'n arena lle rhennir a lledaenir arferion da. Mae pynciau a materion a godir yn aml yn y cyfarfod yn cael eu hadrodd i fyny i'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd.

103 Nid yw mentrau gwella diweddar y Brifysgol, megis y Tîm Datblygu Academaidd, wedi ymestyn eto i ddarparwyr partner. Dywedodd y Brifysgol wrth y tîm adolygu bod angen i hyn ddigwydd a bydd yn ymdrin â hynny wrth gynllunio yn y dyfodol.

104 Mae modd i'r myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr partner ddefnyddio rhai o'r un mecanweithiau adborth â'r rheiny sydd ar gael i'r myfyrwyr sy'n astudio ar y campws, sef 'Tell Glyn', gwerthusiadau o fodiwlau a Fforymau Llais y Myfyrwyr. Mewn egwyddor, y partner sy'n darparu'r gwasanaethau i'r myfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn seilio ei phenderfyniad i ddarparu adnoddau ychwanegol ar archwiliad o ddarpariaeth y partner.

105 Mae'r darparwyr partner yn cymryd rhan yng ngweithdrefnau monitro blynyddol y Brifysgol. Mae'r Swyddfa Partneriaethau'n adolygu perfformiad pob darparwr, ac mae'r cyfadrannau'n gyfrifol am fonitro ar lefel y cyrsiau. Ystyrir adroddiadau monitro blynyddol yn y Pwyllgor Dysgu, Addysgu ac Ansawdd. Mae'n ymddangos bod dealltwriaeth dda o'r system hon.

106 Mae arholwyr allanol yn samplu gwaith y myfyrwyr sy'n astudio mewn darparwyr partner ac maent yn craffu ar asesiadau'r rhaglenni lle bynnag y maent yn cael eu darparu. Mae'n ymddangos bod y gwaith yma'n effeithiol. Er bod y Brifysgol yn gosod yr asesiadau, y darparwyr partner sy'n gyfrifol am farcio gwaith y myfyrwyr am y tro cyntaf, ac am yr ail farcio hefyd. Mae samplau o'r gwaith sydd wedi'i farcio'n cael eu safoni gan academyddion y Brifysgol er mwyn sicrhau cydraddoldeb a chysondeb. Mae'r partneriaid yn ymwybodol iawn o'r systemau a'r gweithdrefnau sydd ar waith ac maent yn gyfarwydd â'u rolau oddi mewn iddynt.

107 Cyflwynir ceisiadau am astudio mewn sefydliadau partner i'r Brifysgol i gael eu craffu. Mae'r Brifysgol yn cadw'r cyfrifoldeb am dderbyn a chofrestru'r holl fyfyrwyr, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio mewn darparwyr partner.

108 Mae rheoliadau, polisïau a gweithdrefnau'r Brifysgol, a'i Llawlyfr Ansawdd Academaidd, yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol hefyd. Yn ychwanegol, cynhyrchwyd Llawlyfr Darpariaeth Gydweithredol i egluro'r rolau a'r gweithdrefnau.

109 Adolygir cynigion am bartneriaethau newydd gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Partneriaethau). Mae cynigion cychwynnol yn cael eu hadolygu hefyd gan y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd. Yn dilyn hynny, mae adroddiadau diwydrwydd dyladwy ar bartneriaid newydd yn gofyn cymeradwyaeth Tîm Gweithredol yr Is-Ganghellor cyn y byddent yn symud ymlaen at y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd ac yn y pen draw i'r Bwrdd Academaidd. Mae'r broses diwydrwydd dyladwy'n ystyried gwybodaeth am statws y partner a'r rhaglenni arfaethedig, y rhesymeg strategol, y goblygiadau o ran adnoddau a staffio, ac achos busnes. Rhaid hefyd gwblhau asesiad risg cyn i gynigion am bartneriaethau cydweithredol gael eu cymeradwyo. Mae'r asesiad risg yn ystyried y canlynol: statws ariannol a chyfreithiol y partner, ei gyd-destun cymdeithasol-wleidyddol, ei adnoddau ar gyfer darparu addysg uwch, ei brofiad blaenorol o ddarparu addysg uwch, unrhyw adroddiadau sicrwydd ansawdd allanol sydd ar gael amdano, a phrofiad y Brifysgol a gallu'r partner arfaethedig o ran rheoli'r rhaglen.

110 Mae'r Brifysgol yn darparu graddau ymchwil ar ran dau gorff dyfarnu gwahanol am nad oes ganddi bwerau dyfarnu graddau ymchwil ar hyn o bryd. Er bod y Brifysgol wrthi'n gweithio tuag at sicrhau pwerau dyfarnu graddau ymchwil, nid oes ganddi ddyddiad targed pendant ar gyfer sicrhau'r pwerau hynny. Ar hyn o bryd, caiff myfyrwyr ymchwil y Brifysgol eu cofrestru gyda naill ai Brifysgol Caer neu Brifysgol Cymru, ond mae'r ail bartneriaeth wrthi'n dirwyn i ben.

111 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi comisiynu adolygiad allanol o'i darpariaeth ymchwil ôl-raddedig. Dangosodd myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig bod rhai o'r argymhellion a gododd o'r adolygiad yn derbyn sylw, er enghraifft, mynediad at gyllido. Mae adborth gan fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael ei fonitro drwy ddilyn gweithdrefnau pwrpasol y cyrff dyfarnu. Mae Is-bwyllgor Graddau Ymchwil Prifysgol Glyndŵr yn derbyn yr adroddiadau monitro. Mae amserlen gyfoethog o ddigwyddiadau hyfforddi ar gael i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig. Mae'r dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn hwyr yn cael ei gwblhau, ac mae hyn wedi'i drafod ymhellach ym mharagraff 45.

112 Mae gan y Brifysgol uned ganolog ar gyfer sicrhau, cydlynu a goruchwylio lleoliadau gwaith. Mae'r Uned Dysgu Cysylltiedig â Gwaith yn trefnu lleoliadau gwaith ar gyfer cyrsiau proffesiynol lle mae lleoliadau o'r fath yn orfodol ac i fyfyrwyr ar gyrsiau lle nad oes gofyniad o'r fath. Mae'r uned yn rhyddhau'r myfyrwyr o'r cyfrifoldeb am ganfod eu lleoliadau gwaith eu hunain, sy'n briodol ac yn ganmoladwy. Datblygwyd llawlyfr defnyddiol i gyfarwyddo'r gwaith yma.

5.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

113 Yn yr ardal leol, mae'r Brifysgol yn cydweithio â phum coleg addysg bellach o'r DU i gynnig addysg uwch. Mae'n ymddangos nad oes unrhyw broblemau gyda'r partneriaethau hyn, er eu bod ar wahanol gamau yn eu haeddfedrwydd. Nid oes unrhyw gynlluniau penodol i ehangu'r rhwydwaith yma ymhellach.

114 O safbwynt rhyngwladol, mae'r Brifysgol wedi datblygu Strategaeth Ryngwladol i'w defnyddio i gynyddu ei darpariaeth addysg drawswladol yn sylweddol, yn bennaf yn Asia. Mae'r Brifysgol wrthi, ac mae wedi bod, yn datblygu cynlluniau adnoddau ar gyfer yr ehangiad yma. Mae llawer o'r tyfiant mewn partneriaethau tramor yn cynnwys colegau preifat y mae'r Brifysgol yn etholfreinio amrediad eang o raglenni iddynt, o ddarpariaeth isradd hyd at lefel gradd meistr. Mae Prifysgol Glyndŵr wedi penodi Dirprwy Is-Ganghellor sydd â chylch gwaith sefydliadol penodol ar gyfer partneriaethau, a phenodwyd cynghorydd cyfreithiol i adolygu gweithgareddau cydweithredol, gan gynnwys cynigion newydd. Sefydlwyd Swyddfa Partneriaethau i oruchwylio a chydlynu gwaith y Brifysgol yn y maes yma o'i gweithrediadau'n effeithiol. Cyflwynwyd papur briffio ar y tyfiant yn narpariaeth addysg drawswladol y Brifysgol yn Ewrop ac Asia i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor, sy'n dangos bod y tyfiant yma'n cael ei adolygu'n barhaus ac sy'n nodi bod angen prosesau sy'n fwy hyblyg.

5.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academaidd a gwella profiad dysgu'r myfyrwyr

115 I gloi, ar hyn o bryd mae gan y Brifysgol fframwaith cadarn ac effeithiol ar gyfer rheoli pob agwedd o'i darpariaeth gydweithredol. Wrth ddod i'r casgliad yma, mae'r tîm yn cydnabod bod y Brifysgol wedi gwneud yr hyn y gellid ei ddisgrifio fel adolygiad sylweddol o'i threfniadau blaenorol ar gyfer rheoli partneriaethau. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddi'n sylweddol mewn adnoddau dynol ac ailddrefnu strwythur pwyllgorau'r Brifysgol. Cyn cael eu llofnodi gan Dîm Gweithredol y Brifysgol, mae cynigion newydd yn cael eu fetio gan ddefnyddio gweithdrefn diwydrwydd dyladwy, sy'n ystyried pob agwedd o weithrediadau'r partner. Ystyrir hwn mewn pwyllgorau strategol pwrpasol o fewn y strwythur, sef y Pwyllgor Partneriaethau Academaidd a'r Bwrdd Academaidd. Mae'r cyfeiriad strategol ar gyfer datblygu darpariaeth addysg drawswladol wedi'i sefydlu'n barod mewn papur briffio i Fwrdd Gweithredol yr Is-Ganghellor. Bydd y problemau gweithredol sy'n dod i'r amlwg yn cael eu codi i ddechrau yn y Grŵp Gweithredu Cysylltiadau Academaidd, drwy'r Swyddogion Cyswllt, ac yna'n cael eu symud i fyny i'r Pwyllgor Partneriaethau Academaidd i gael eu gweithredu. Mae'r Llawlyfr Darpariaeth Gydweithredol yn adnodd cynhwysfawr sy'n cynnwys cyfeiriadau at holl reoliadau'r Brifysgol y mae'r ddarpariaeth o fewn y partneriaid yn atebol iddynt mewn modd tebyg. Goruchwylir yr holl weithgareddau academaidd cydweithredol gan y Swyddfa Partneriaethau. Mae dealltwriaeth dda o fewn y Brifysgol ac ymysg ei phartneriaid o'r rhwydwaith yma o bwyllgorau, swyddfeydd ac unigolion cyfrifol. Nid yw'r gweithgareddau gwella ar ffurf Tîm Datblygu Academaidd wedi'u hymwreiddio eto ym mhartneriaid y Brifysgol, ond mae'r angen hwn wedi'i gydnabod ac mae cynlluniau ar y gweill i'w weithredu.

QAA2379 - R10231 - Mai 2019

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019

Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk